# Y DINESYDD

Mai 2020 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 447














Llun: Noa

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Ioan Kidd**

***Golygydd Mehefin***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn 27 Mai i:
telynores.ysblot@yahoo.co.uk
32 Stryd Arthur, Y Rhath,
Caerdydd, CF24 1QR
0771 3765692

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd




## Gyrfa Gymraeg/ Dewis Cymraeg

Mae'n anodd cofio nôl i adeg cyn i'r holl sôn am goronafeirws lenwi ein bywydau ond ddydd Llun yr 2ail o Fawrth, lansiodd Cyngor Caerdydd ddigwyddiad a menter newydd yn adeilad hanesyddol Neuadd y Ddinas.

Mae gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol wrth astudio ar gyfer Lefel A yn anodd i rai ac yn hawdd i eraill. Fel arfer mae disgyblion yn mynd i ffair swyddi i gael syniad ac ysbrydoliaeth am beth i'w wneud yn y dyfodol. Er bod nifer o ddigwyddiadau o'r fath ar gyfer disgyblion ysgolion Saesneg doedd dim dewis gan yr ysgolion Cymraeg ond mynd i'r digwyddiadau uniaith Saesneg... tan nawr! 'Gyrfa Gymraeg' oedd ateb Cyngor Caerdydd i hyn.

Gwahoddwyd disgyblion chweched dosbarth o Ysgol Glantaf, Plasmawr a Bro Edern - dros 250 i gyd - ond ar y diwrnod roedd bron i 300 yn bresennol. Cafodd cyflogwyr a phrifysgolion gyfle i siarad â disgyblion wyneb yn wyneb a thrafod unrhyw gwestiynau oedd ganddyn nhw. Denodd cyflwyniad S4C a Hansh sylw da gan y disgyblion gyda Llywodraeth Cymru yn cyflwyno eu cynllun prentisiaeth nhw hefyd. Roedd digon o gyfle yn ystod y digwyddiad i weld pob stondin a'r cynigion oedd ar gael am ddim. Ar ôl cyflwyniadau gan Senedd Cymru, Canolfan y Mileniwm, Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Mudiad Meithrin roedd yna sesiwn holi ac ateb lle cafodd disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau i'r cadeirydd Owen Derbyshire. Ar y panel o arbenigwyr roedd Mandy Powell yn trafod ei chwmni Good Wash, Alis Gwyther, dylunydd tecstilau Alis Knits, Ieuan Harri, sefydlydd Ffwrnes Pizza, Owen John, cadeirydd Cwlwm Busnes a Steve Dimmick yn trafod un o'i gwmnïau sef 'doopoll'. Defnyddiwyd app 'doopoll' ar gyfer y sesiwn holi ac ateb trwy ffonau symudol y disgyblion.

Ein gobaith yw y bydd y digwyddiad yn parhau o flwyddyn i flwyddyn i ddisgyblion o ysgolion Cymraeg sydd eisiau darganfod mwy am opsiynau trwy gyfrwng yr iaith p'un ai ydy hynny'n cynnwys addysg uwch neu swyddi prentis.

*Cynhaliwyd y digwyddiad gan Fforwm Caerdydd Ddwyieithog fel rhan o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.*

*Dilynwch y Fforwm ar Trydar @FforwmCDd i ddysgu mwy ac i ymuno â'r sgwrs am ddyfodol ein hiaith ni yn ein dinas ni.*

*Cai Maxwell*
*Caerdydd Ddwyieithog*

## Siopau oedd yn gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Hel Meddyliau

Mis Mai, Mis y Blodau chwedl Eifion Wyn a mis o lawenydd fel arfer wrth i ni groesawu'r haf i'n plith. Ond eleni mae'r haint felltith wedi torri ar draws ein bywydau a chreu ofn ac ansicrwydd a diflastod sy'n peri perygl i'r ddynoliaeth mewn gwirionedd. All diwedd 2020 ddim dod yn ddigon buan, gan ers dechrau'r flwyddyn 'dan ni wedi profi helyntion Brexit, stormydd, llifogydd a rŵan haint!

Bues i'n lwcus i fedru dathlu pen-blwydd arbennig yn fy hanes cyn dyfodiad y dyddiau blin, a hynny ar y 12fed o Chwefror pan on i'n 85 oed. Penderfynais ddathlu'r achlysur yn deilwng ac yn wir ces i lawer o bleser a mwynhad. Fel mae'n digwydd, dwy' i mewn cwmni da gan y ganwyd Abraham Lincoln, Arlywydd yr Unol Daleithiau, ar yr un dyddiad nôl yn 1809! Hefyd, dwy'n digwydd nabod nifer o bobl eraill sy'n dathlu eu penblwyddi yr un pryd.

Un ohonyn nhw odd Ifanwy Williams, Porthmadog a fu farw'n ddiweddar yn 98 oed. Odd hi'n wraig arbennig ac yn Gymraes i'r carn a des i'w hadnabod gyntaf pan odd hi'n weithgar yn y Mudiad Meithrin. Odd hi'n wraig dal, urddasol â phersonoliaeth syber a braf odd bod yn ei chwmni. Arferai fyw mewn tŷ uwchben porthladd Porthmadog ac odd yr olygfa o ffenestr ei lolfa yn fendigedig ac yn falm i'r enaid. Buon ni'n cyfnewid cardiau Nadolig a phen-blwydd am flynyddoedd ac yn ystod ei blynyddoedd olaf byddai wastad yn sgrifennu "yma o hyd" ar y cardiau! Coffa da am wraig a wasanaethodd ei chymdeithas mewn sawl maes.

Un arall sy'n rhannu fy mhen-blwydd ydy gŵr ifanc o'r enw Darïo Jones gynt o'r Gaiman yn y Wladfa ond sy ers blynyddoedd rŵan yn byw ym mhentre'r Brithdir ger Dolgellau ac sy'n siarad llond ceg o iaith y gogs!

Wrth sôn am y Wladfa, Awst nesa bydd hi'n 30 mlynedd ers i mi gychwyn am y Wladfa am y tro cyntaf i ddysgu Cymraeg am flwyddyn yn Nyffryn Camwy. Yn 1990 penderfynais i ymddeol yn gynnar o fy swydd fel athro Cymraeg ar ôl 31 mlynedd o ddysgu heb feddwl beth fyddwn yn ei wneud am weddill fy mywyd. Felly on i'n dweud wrth bawb fy mod i'n "newid cyfeiriad" ond heb wybod mwy na hynny ar y pryd!

Yna, gwelais i raglen ar S4C yn sôn am ddysgu



Cymraeg ym Mhatagonia a felly cynigiais i fy ngwasanaeth, ac ar ddiwedd Eisteddfod yr Wyddgrug yn 1991 dyma ffarwelio â Chymru am flwyddyn er mawr syndod i'm teulu a ffrindiau!

Dwy'n dal i gofio'r profiad o hedfan i faes awyr Trelew o Buenos Aires a fel odd yr awyren yn paratoi i lanio edrychais i drwy'r ffenest a gweld y Paith am y tro cyntaf a chofiais i eiriau William Jones yn nofel T. Rowland Hughes pan welodd Cwm Rhondda am y tro cyntaf o'r trên ac ebychodd: "Y nefoedd dyma le"! Ond mwynheais i'r flwyddyn dramor cymaint nes i mi ddychwelyd ddwywaith ac mae atgofion lu gen i am fy amser yno ymhlith pobl odd yn halen y ddaear.

Erbyn hyn mae tair ysgol gynradd Gymraeg yn y Wladfa – dwy yn y Dyffryn ac un yn yr Andes ac maen nhw i gyd yn ffynnu, a felly mae parhad yr iaith draw yn fwy sicr rŵan. Blynyddoedd yn ôl, dim ond un ysgol Gymraeg odd yn y byd tu allan i Gymru sef Ysgol Gymraeg Llundain ond rŵan mae 'na bedair!

Pan on i'n blentyn, addysg Saesneg a dderbyniais i yng Nghaerdydd gan nad odd ffasiwn beth ag addysg Gymraeg yn bodoli y pryd hynny. Ond rŵan mae 'na ysgol Gymraeg bron ymhob rhan o'n dinas a'r Gymraeg yn cael parch o'r diwedd.

Wel dyna ddigon o hel meddyliau am y tro, gan obeithio y dychwelith normalrwydd i'n bywydau a gobaith yn y tir unwaith eto.

*Gwilym E. Roberts*

## Apêl ar gyfer Dinesydd mis Mehefin

Oherwydd y firws Covid-19 sy'n ein cadw gartref i bob pwrpas, bydd Dinesydd mis Mehefin, o reidrwydd, yn wahanol iawn i'r arferol. Ni fydd nifer o'r adroddiadau arferol na'r rhai am ddigwyddiadau penodol i'w cael. Byddwn felly yn dibynnu arnoch chi, y darllenwyr, i fynd ati i ysgrifennu.

Chwi feirdd a'n holl lenorion
sy'n hoffi cyfansoddi,
yn blant neu'n hen mewn dyddiau
rhowch bìn ar bapur heddi'.

Anfonwch i'r Dinesydd
eich hynt a'ch troeon trwstan
wrth fyw bob dydd fel meudwy
yn nyddiau'r firws aflan.

Nawr, gwrandwch ar fy nghyngor,
a pheidiwch gwag-swmera.
Gwnewch ddefnydd da o'ch amser
trwy 'sgwennu a llenydda!

Byddem yn ddiolchgar o dderbyn cyfraniadau, yn gerddi, yn straeon, yn ysgrifau ayyb. Gall y rhain fod yn ddoniol neu yn ddwys. Anfonwch eich cyfraniadau at Miranda Morton, golygydd y mis erbyn 27 Mai: telynores.ysblot@yahoo.co.uk

# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel Pobol y Rhigwm.

Y dasg y tro diwethaf (tasg 31) oedd llunio pennill, baled neu limrig DIGRI i godi calon a gwên ar y testun 'Taith'.

Daeth cannoedd o gynigion i law; dyma ddetholiad o'r goreuon. Cafwyd cnwd teilwng iawn o limrigau'n bennaf, felly gobeithio bydd ambell un yn codi gwên os nad chwerthiniad i ddarllenwyr y *Dinesydd*.

Wrth hedfan o Rhws i 'Bertawe,
Fe glywodd 'rhen Dai lais o rywle:
'Eich capten sy'n wilia,
Oherwydd corona
Rwyf yma yn gweithio o gartre!'

***Auto peilot***

Dim papur tŷ bach draw yn Asda,
Dim Kleenex, ble deithia i nesa?
Cofiais yn sydyn
Smygais yn llencyn…
Defnyddiaf i becyn o Rizla!

***Desperet Dan***

Nid y daith i'r rŵm ffrynt ble rhigymaf,
Na'r daith i'r post wedyn, yw'r hiraf.
Na! Taith weithiau'n ddiddiwedd
Yw symudiad un fodfedd
Fy mysedd i deipio'r gair cyntaf.

***Y bardd diawen***

"Haya!"
meddai'r teithiwr talog
wrth Ianto ger trogylch Penboyr.
"Which way to Langrannuck from here?"
"O! Ti 'di dod yn rhy bell,"
medde Ianto yn chwim,
"Cer nôl i Bont Abram
a joina'r M pedwar
a'i dilyn hi reit hyd y pen!"

***Siwrne seithug***

Mae limrig **Auto Peilot** yn ein hatgoffa nad yw *pawb* yn gallu gweithio o gartre, a byddai clywed y neges hon yn destun pryder i Dai a'r teithwyr eraill, mae'n siŵr. Braf gweld tafodiaith hyfryd Cwm Tawe'n fyw ac yn iach yng Nghaerdydd.

Mae **Desperet Dan** dan straen oherwydd y prinder papur tŷ bach a welwyd yn y siopau. Prin fod y papur a ffeindiodd yn cynnig dihangfa lanwaith… darlun doniol a hen jôc wedi'i gweithio'n dda.

Deuparth gwaith, medden nhw, a dyna destun **y bardd diawen**, yn siarad o'i brofiad ei hun ac o brofiad pawb sy'n ceisio ysgrifennu.

Mae'r cyngor ym mhennill **Siwrne Seithug** yn un y bydden ni'n dymuno ei roi'n aml y dyddiau hyn, ac mae'r jôc yn taro deuddeg (er nad yw'r mydr cystal).

Bu'n anodd dewis rhwng y pedwar a dweud y gwir, ond gan mai am ddoniolwch ro'n i'n chwilio, rwy'n meddwl mai limrig **Auto Peilot** sy'n mynd â hi. Mae'n amserol ac yn ddoniol ar yr un pryd, felly llongyfarchiadau mawr a diolch i'r pedwar am gystadlu.

**Enillydd tasg rhif 31 yw**
**Peter Griffiths, Pentyrch**

**Y dasg y tro nesa fydd llunio pennill neu limrig i unrhyw beth neu unrhyw un sydd yn y newyddion.** Does dim rhaid cyfeirio at y feirws coron, (er nad oes llawer o ddim arall yn y newyddion ar hyn o bryd).

Anfonwch eich cynigion at Bryan James bryan.val.james@gmail.com erbyn **18 Mai** os gwelwch chi'n dda.

**Emyr Davies**

# Côr o Gaerdydd yn ennill clod gan gyfansoddwr

Mae un o gorau mwyaf llwyddiannus Caerdydd wedi'i gydnabod gan gyfansoddwr adnabyddus ar ôl recordio fersiwn rhithwir o un o'i ddarnau mwyaf poblogaidd. Rhyddhaodd Côr CF1 recordiad rhithwir o Baba Yetu gan Christopher Tin er mwyn talu teyrnged i waith caled y gweithwyr allweddol yn y côr ac ar draws y wlad. Mae hi nawr wedi'i weld dros 30,000 o weithiau ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Rhannodd Tin y fideo ar-lein ddiwedd Ebrill, gan ddisgrifio perfformiad CF1 yn 'anhygoel.'

"Maent wedi ennill sawl cystadleuaeth genedlaethol yn perfformio Baba Yetu," meddai, "a gallwch chi glywed pam!"

Enillodd Tin Grammy am gyfansoddi Baba Yetu, sy'n fersiwn o Weddi'r Arglwydd yn Swahili. Mae'n enwog am fod yn brif thema'r gêm gyfrifiadurol Civilisation IV, a chafodd ei berfformio yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn ystod eu dathliadau'n 70 oed yn 2017.

"Mae Baba Yetu wedi bod yn ffefryn y côr ers talwm," meddai arweinydd CF1, Eilir Owen Griffiths, "ond mae gan y geiriau ystyr newydd o obaith yn ystod yr amseroedd caled hyn. Roedd y côr wrthi'n brysur yn ymarfer at gystadlu dros yr haf, cyn i'n byd ni a phawb arall gael ei droi ben ei waered. Gan ein bod ni'n gweld eisiau ein gilydd, roedden ni eisiau gwneud rhywbeth i ddod â phawb ynghyd unwaith eto – nid yn unig i ganu, ond hefyd i ddiolch i'r rheiny sy'n gweithio mor galed bob dydd i'n cadw ni'n ddiogel."

Mae Baba Yetu i'w weld ar bresenoldeb CF1 ar Facebook, Twitter, YouTube ac Instagram.

# Eisteddfod Ysgol Farddol Menter Caerdydd

Mae Menter Caerdydd yn cynnal dosbarthiadau cynganeddu neu Ysgol Farddol yn nhymor yr hydref a'r gwanwyn. Athro'r dechreuwyr yw Emyr Davies; athro'r ail flwyddyn yw Aron Pritchard a Gruffudd Owen sy'n tywys y criw mwyaf profiadol. Penllanw'r dosbarthiadau yw Eisteddfod yr Ysgol Farddol, lle bydd beirniad yn tafoli cynigion barddol y criwiau gwahanol gan wobrwyo'r buddugwyr. Roedd yr Eisteddfod eleni i'w chynnal ynghanol mis Mawrth, hyd nes i'r argyfwng iechyd darfu ar bob cynllun. Felly, bu'n rhaid i'r beirniad – Y Prifardd Mererid Hopwood – anfon beirniadaeth ysgrifenedig yn unig. Gellir darllen y feirniadaeth yn gyflawn ar wefan y Fenter: https://mentercaerdydd.cymru/

Diolch i Mererid am ei gwaith, i'r Fenter am noddi'r dosbarthiadau a'r Eisteddfod ac i griwiau'r Ysgol Farddol am sawl seiad hwyliog dros y ddau dymor diwethaf.

Dyma ddetholiad o'r cerddi buddugol yn y prif gystadlaethau, a gyhoeddir trwy ganiatâd y beirdd.

Llongyfarchiadau iddynt oll.

Hir-a-thoddaid: **Gwynt**
**Rhys Powys** (buddugol)

Morgannwg... Gwent... mae oergan y gwyntoedd
Yn udo'n flin dros gomin, trwy gymoedd,
Dros feddau, neuaddau, dros fynyddoedd.
Twrw iasol fu'n rhuo trwy'r oesoedd,
Sŵn bonllefau, sŵn angau, sŵn ingoedd
Yno'n troedio hyd teras a strydoedd
Ar ei rawd, ac yno roedd... cymdogaeth.
Ai ias o hiraeth sy'n siglo'r siroedd?

Englyn: **Anrhydedd**
Cyd-fuddugol: John Lloyd

Gornest y bryddest ddaeth â'r bri - molawd
melys y coroni
a nodyn o'i Mawrhydi,
mae y bardd yn MBE.

Cyd-fuddugol: **Rhys Powys**

A ddaw amlen eleni? Dwi'n addo,
Dwi'n haeddu 'nghlodfori.
Fe ddylwn gael f'addoli.
O Mam Bach – dwi'n MBE!

3. Y Gadair – Cywydd neu gerdd gaeth: **Chwedl**
**Lewis Evans** (buddugol)

Ar werth yn rhy hir,
o'dd neb yn cymoni'r ardd anniben
yn nhŷ'r dyn a wnaeth am ei hunan.....
I hogiau drwg, doedd wiw i gadw draw,
ta waeth am ddrychiolaethau.
Cam wrth gam drwy'r gât
at annedd yr arswyd dienw,
a drwy'r mieri, lled-weld y Bwci Bo –
Wir yr, siŵr iawn.
A wedyn adrodd, yn ein diniweidrwydd,
Yr hyn oedd yn awr yn wirionedd i ni:
fod 'sbrydion rheibus, dolefus ar led,
a heno'n dod amdanom –
Ond os cododd y meirwon, ddihunon ni ddim…..
Maddau ni ein mabinogi di-nam,
yn ddedwydd yn ein breuddwydion –
Hen ŵr y lloer arall oedd
yn lleuad oer dy hunlle di.

# Cymorth Clwb Cymric

Yn anffodus, yn sgil digwyddiadau diweddar does dim llawer o newyddion pêl-droed i'w cyflwyno ers peth amser ac, a dweud y gwir, bydden ni fel arfer yn ysgrifennu am ddiwedd y tymor pêl-droed yr adeg yma o'r flwyddyn. Yn hytrach, neges i godi calon sydd gan Cymric y mis hwn, a neges i ddiolch i bawb sydd ynghlwm â'r clwb sydd wedi cyfrannu i godi arian at achos arbennig yn ystod y cyfnod anodd yma.

Penderfynodd aelodau o'r clwb drefnu cronfa o arian i'w gynnig fel rhodd i bobl sy'n helpu eraill yn ystod y pandemig COVID-19. Gosodwyd targed gwreiddiol o £500, gan obeithio y byddai aelodau'r timau pêl-droed, pêl-rwyd, hoci, timau ieuenctid a chyn-chwaraewyr yn fodlon cyfrannu. Cawsom ein rhyfeddu gan yr ymateb, ac o fewn ychydig dros wythnos yn unig, fe gasglwyd £3100.

Defnyddiwyd yr arian mewn modd ymarferol i gefnogi staff meddygol yn yr Uned Gofal Dwys yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn ystod y cyfnod heriol a digynsail yma. Cyflwynwyd offer technolegol newydd sbon i'r staff i allu cysylltu â theulu a ffrindiau yn ystod cyfnodau hir o weithio, yn ogystal ag wyau Pasg di-ri a hufen gofalu am groen.

Hoffen ni ddiolch i bawb sy'n gweithio'n ddiwyd i'r Gwasanaeth Iechyd, a hefyd rydym yn ddiolchgar tu hwnt i'n teulu Cymric a ffrindiau hael. Yn sicr, fyddwn ni ddim yn cymryd ein gallu i chwarae amrywiaeth o gampau a chymdeithasu gyda'n ffrindiau yn ganiataol yn y dyfodol. Rydym i gyd yn gobeithio y cawn ni adrodd ar y chwaraeon yn fuan eto. Cymerwch ofal!



# Gweinidogaethu mewn Cyfnod o Argyfwng

*Er bod drysau'r eglwysi ynghau ar hyn o bryd, mae nifer fawr wedi dod o hyd i ffyrdd creadigol o weithio. Dyma adroddiad gan y Parchg Ddr Alun Tudur, sy'n esbonio sut mae Eglwys Ebeneser yn mynd ati i gynnal gweithgareddau yn wyneb y cyfyngiadau cymdeithasol.*

## Amgen yw'r Cyffredin

Fel pob eglwys y mae Ebeneser, Caerdydd, wedi gorfod addasu yn ddiymdroi i'r gwahardd dealladwy sydd ar ymgynnull torfol er mwyn atal lledaeniad Covid-19. Mae hwn yn aflwydd eithriadol o heintus sy'n peryglu bywyd unrhyw un sydd yn ei ddal, felly rhaid gwneud ein gorau glas i beidio â'i ledu. Hoffwn ddymuno'n dda i'r holl eglwysi yn nalgylch *Y Dinesydd* yn ystod y cyfnod anodd hwn, y bydd yr Arglwydd yn eu bendithio a'u cynnal. Mae'n siŵr mai dyma'r tro cyntaf erioed yn hanes eglwysi Cristnogol ynysoedd Prydain nad ydynt yn cyfarfod yn gynulleidfaol. Mae eglwysi yn bodoli er mwyn cynnull, neu mae eglwysi wrth ymgynnull yn bodoli. Ta beth, mae wedi bod yn her i feddwl sut y gallwn barhau i weithredu fel eglwys er bod yr holl gyfarfodydd a gweithgareddau wedi dirwyn i ben am y tro. Mae'n cymryd amser hirfaith fel arfer i eglwysi addasu i newidiadau ond y tro hwn rhaid canmol yr Eglwysi Cymraeg am y modd y maent yn ymateb yn eithriadol o gyflym i'r amgylchiadau. Y mae'r hen wireb, "angen yw mam dyfais," yn gywir, oherwydd pan mae gwasgfa arnom yr ydym yn gallu ymateb yn egnïol greadigol. Fel Eglwys gosodwyd yn gynnar nifer o gynlluniau yn eu lle er mwyn cadw cysylltiad ac er mwyn gweithredu.

### Llusern Fach

Bellach, pob wythnos y mae Llusern Fach yn cael ei chyhoeddi. Fersiwn cywasgedig o gylchgrawn deufisol Ebeneser yw hwn gyda rhwng 4 - 8 tudalen yn rhoi ychydig hanes ein haelodau, myfyrdod Beiblaidd, gweddi, pynciau gweddi ac anogaeth. Y mae hwn yn cael ei ddosbarthu trwy e-bost ac yn cael ei bostio i aelodau sydd ddim ar y we.

### Tîm Gofal

Er mwyn gofalu am ein haelodau hŷn a mwyaf bregus, sefydlwyd Tîm Gofal sy'n cynnwys 18 o aelodau. Y mae 12 aelod yn gyfrifol am roi caniad i 3-4 o aelodau hŷn yn wythnosol er mwyn holi eu hynt a'u helynt ac i ofyn a ydynt angen unrhyw beth e.e., siopa, postio, nôl pensiwn a.y.b. Yna mae 6 aelod arall yn barod i wneud unrhyw beth ymarferol a gyfyd. Mae wedi bod yn fraint cael helpu rhai o'r aelodau hynny sydd wedi bod angen cymorth.

### Sianel YouTube

Sefydlwyd Sianel YouTube Ebeneser er mwyn darlledu oedfaon fideo ar fore Sul a myfyrdodau a gweddïau yn ystod yr wythnos. Rydym fel aelodau wedi gorfod dysgu sgiliau newydd er mwyn ein galluogi i wneud hyn. Ond dyna ni, rydym wedi ein creu ar lun a delw Duw ac un o briodoleddau Duw yw ei fod yn greadigol. Golyga hynny ein bod ninnau yn greadigol ac yn canfod ffyrdd amgen i dystio i'n ffydd yn Iesu.

### Zoom

Rydym yn dra diolchgar am y cyfryngau torfol sydd gennym bellach ar flaenau ein bysedd sy'n ein galluogi i gysylltu gyda'n gilydd. Un peth y mae llawer ohonom wedi ei ddarganfod yw system darlledu Zoom. (Ble'r aeth Skype tybed? Fe fachludodd haul y system honno yn bur sydyn.) Y mae hwn wedi bod yn gaffaeliad mawr oherwydd trwyddo rydym wedi gallu cynnal ysgol Zul, Cwrdd Gweddi, Astudiaeth Feiblaidd a Chwrdd Diaconiaid. Ar y rhaglen hon gellir cael fideo o gannoedd o bobl ar yr un pryd fel ein bod yn gallu siarad gyda'n gilydd. Fel eglwysi eraill ar ôl darlledu oedfa ar fore Sul rydym wedi cynnal cyfeillach fel teulu Ebeneser gyda phaned a bisgedi. Hyfryd yw treulio amser gyda'n gilydd. Y mae'n braf gallu dweud fod Eglwys Iesu Grist yn fyw ac yn iach er yr amgylchiadau prudd yr ydym yn eu hwynebu.

### Gofid

Un gofid amlwg sydd yn ein meddyliau yw nad ydym yn gallu gwasanaethu pobl ar hyn y bryd. Nid ydym yn gallu gwasanaethu'r digartref na'r ymgeiswyr lloches ac, wrth gwrs, nid oes modd cynnal gweithgareddau i godi arian at elusennau. Y mae hyn yn destun pryder gan ein bod fel eglwysi yn cyflawni cymaint yn y cyfeiriad hwn. Gwn y byddwn yn fuan yn canfod ffyrdd amgen i godi arian ond anos yw gweini yn ymarferol ar ein cyd-ddyn. Dymunwn iechyd i bawb o ddarllenwyr *Y Dinesydd* a Duw yn agos.

---

## Draig o'r enw Môr

### Jilly Bebbington

Gyda'r newyddion diweddar am drafferthion ariannol hosbis plant Tŷ Hafan, dyma gyfle gwych i helpu'r achos, gyda chyhoeddi cyfrol newydd o storïau difyr a hynod wreiddiol i blant. Ynddi, ceir pum stori llawn dychymyg am ddraig ifanc addfwyn a charedig o'r enw Môr, sy'n byw ym Môr Hafren. Un dydd, mae'n sylwi ar Dŷ Hafren ac yn mynd i fusnesa. Yn y pum stori hyn cawn ei hanes yn chwarae gyda'r rhai sy'n aros yno a'u gofalwyr.




Mae'r awdures, Jilly Bebbington, wedi bod yn gweithio'n wirfoddol yn Nhŷ Hafan ers rhai blynyddoedd ac roedd yn awyddus i gyhoeddi'r llyfr mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae'r addasiad Cymraeg gan Aled Islwyn. Lluniau gan Andrea Grealy. Cyhoeddwyd gan Y Lolfa. Pris £4.99 (er budd Tŷ Hafan).

Os nad yw siopau Cymraeg arferol Caerdydd a'r Fro wedi ailagor erbyn ichi ddarllen hyn, gellir archebu copïau'n uniongyrchol o'r Lolfa, neu ar Amazon.

# Ysgol Bro Morgannwg

**Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg**
Fel ysgolion eraill trwy Gymru, bu mis Ebrill yn fis digon rhyfedd wrth i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddechrau 'dysgu o bell'! Er hynny, daeth digon o newyddion da i godi gwên. Gobeithiwn fod pawb yn cadw'n iach ac yn saff.



**Gymnasteg**
Llwyddodd Eryn Griffiths o flwyddyn 8 mewn cystadleuaeth Gymnasteg Rhythmig yn ddiweddar. Ym mis Mawrth, cystadlodd Eryn yng nghystadleuaeth Gibraltar International 2020. Cystadlodd ar lefel ieuenctid elitaidd lefel 5. Llwyddodd i ddod yn 2il yn y gystadleuaeth 'Defnyddio'r bêl' ac yn 3ydd yn y gystadleuaeth 'Defnyddio'r rhuban a'r rhaff'. Llongyfarchiadau mawr i ti Eryn.

**Ysgoloriaeth**
Efallai i chi gofio'r enw Anni Davies a enillodd gadair Eisteddfod yr Ysgol ym mis Mawrth. Bellach, mae hi wedi llwyddo i dderbyn Ysgoloriaeth Meddyliau Creadigol gan Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Ei bwriad yw astudio'r Gymraeg a Cherddoriaeth yn y Brifysgol ym mis Medi. Da iawn ti, Anni.



**Newid cyfeiriad**
Yn sgil y pandemig, penderfynodd yr Adran Dechnoleg arall-gyfeirio er mwyn gallu cynnig cymorth i helpu eraill. Mae'r Adran wedi bod yn creu fisyrau er mwyn amddiffyn y gweithwyr gofal ac iechyd. Maent eisoes wedi dosbarthu dros 500 o'r rhain i gartrefi gofal, ysbytai, fferyllfeydd a gweithwyr gofal ac iechyd o amgylch Caerdydd a'r Fro ac yn parhau i greu mwy. Gwaith gwych!

# Wythnos Cymorth Cristnogol ar-lein!

O fewn ychydig wythnosau, mae pandemig y Coronafirws wedi creu newid rhyfeddol yn ein cymdeithas.

Mae'r haint wedi effeithio pob rhan o fywyd. Daeth â dioddefaint ac ansicrwydd i gymaint, yma a thramor, gan wthio'i hun i flaen ein meddwl, ein sgyrsiau a'n gweddïau. Ac rydyn ni i gyd yn gorfod addasu o'i oherwydd.

Mae eglwysi Cymru hefyd wedi addasu, wrth i aelodau gael eu cau allan o'u hadeiladau. Ond mae nifer wedi ymateb i'r her a bellach ceir gwledd o oedfaon a myfyrdodau ar-lein i'n helpu i barhau i addoli.

Yn yr un ffordd, mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod addasu. Am y tro cyntaf ers degawdau lawer, ni allwn gynnal Wythnos Cymorth Cristnogol arferol ym mis Mai eleni. Ond dydy hynny ddim yn golygu ein bod am wneud dim.



Bydd cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle i ymuno mewn gweithgareddau ar-lein ym mis Mai. Mae Trefn Gwasanaeth, Gweddïau a Nodiadau Pregeth i gyd yn barod ar ein gwefan. Gallwch eu defnyddio ar eich cyfrifiadur neu ddyfais, neu eu hargraffu ar bapur adref.

I'r eglwysi hynny sy'n paratoi oedfaon ar-lein bob Sul i'w haelodau, beth am ddefnyddio'r Trefn Gwasanaeth arbennig sy wedi ei pharatoi ar gyfer Sul 10 Mai? Mae'n troi o amgylch yr arfer pwysig o olchi dwylo.

Yn ychwanegol, bydd gennym ddefosiwn dyddiol ar fideo ar ein cyfryngau cymdeithasol a chwis ar Facebook i Gymru gyfan ymuno ynddo! A does dim yn eich atal rhag creu eich syniadau codi arian ar-lein eich hun. Byddem wrth ein bodd cael dathlu'ch syniadau creadigol.

Meddai Cynan Llwyd, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru dros dro, 'Mae wedi bod yn wych derbyn negeseuon cefnogol gan ein cefnogwyr tuag at ein chwiorydd a'n brodyr dramor, a phobl yn gofyn sut allen nhw barhau i gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol mewn cyfnod mor anodd.

'Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu ymuno yng ngweithgarwch yr Wythnos ar-lein ym mis Mai, wrth inni gynnig adnoddau arbennig i'ch helpu i weddïo a chodi arian dros y rhai a effeithir gan dlodi.

'Nid yw cariad yn darfod byth. Mae'r Coronafirws yn ein heffeithio i gyd. Ond mae cariad yn ein huno i gyd. Gadewch inni uno dros Wythnos Cymorth Cristnogol a sefyll mewn undod dros y mwyaf bregus yn ein byd.'

Cewch hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a'r adnoddau ar ein gwefan: https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



***Cyflwyniad***

Rhwng rhifyn Medi 1993 a rhifyn Mai/Mehefin 1994 bu gennyf golofn reolaidd yn *Y Dinesydd* yn trafod agweddau ar fywyd Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau. Ymhlith y pynciau a gafodd sylw yn y golofn honno yr oedd enwau lleoedd, tribannau Morgannwg, a bywyd a gwaith Saunders Lewis, Dafydd Wiliam (yr emynydd o Lanbedr-y-fro) a Dr William Edwards (prifathro Coleg y Bedyddwyr o 1880 hyd 1925). Fel y gwelir, roedd y pynciau'n amrywiol iawn, ac adlewyrchwyd hynny yn nheitl y golofn, sef 'Llys a Llan' – hen ymadrodd yn y Gymraeg sy'n golygu 'ym mhob man'.

Bu raid imi roi'r gorau i'r golofn ym mis Mehefin 1994 oherwydd newid yn fy amgylchiadau gwaith yr adeg honno, ond dyma geisio ailafael ynddi yn awr – am y tro, o leiaf! – gan ddechrau trwy gyhoeddi fersiwn wedi ei ddiwygio a'i helaethu rywfaint o'r ysgrif ar William Edwards a ymddangosodd gyntaf yn rhifyn Tachwedd 1993 o'r *Dinesydd*.

Y rheswm dros gyhoeddi fersiwn o'r ysgrif honno yn awr yw am fod sawl dathliad eleni mewn perthynas â'r Beibl Cymraeg. Mae hi'n 400 mlwyddiant cyhoeddi argraffiad diwygiedig Dr John Davies, Mallwyd, o 'Feibl William Morgan', a ddaeth yn destun 'awdurdodedig' o'r Beibl yn y Gymraeg hyd at gyfieithiad newydd 1988. Mae eleni hefyd yn 250 mlwyddiant cyhoeddi argraffiad cyntaf 'Beibl Peter Williams', a gynhwysai nodiadau esboniadol gan y Diwygiwr Methodistaidd, Peter Williams (1723–96). Dyma'r Beibl Cymraeg cyntaf i'w argraffu ar dir Cymru yn hytrach nag yn Llundain neu Rydychen neu Gaergrawnt, a phrofodd mor boblogaidd nes iddo fynd i dros 30 argraffiad yn ystod y can mlynedd wedyn. Ac fel y gwelir isod, gwnaeth William Edwards gyfraniad pwysig yn ei ddydd yng nghyd-destun cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg.

******************************

## Y COLEG AR EI GEFN

Ar 26 Hydref 1893, ymddangosodd cartŵn yn y *Western Mail* yn dangos dyn moel a barfog mewn gwisg academaidd yn cludo adeilad ar ei gefn. Yn ei ymyl mae arwyddbost sy'n dangos fod yr adeilad yn cael ei gludo o Bont-y-pŵl i Gaerdydd. Cyhoeddwyd y cartŵn i gyd-fynd ag adroddiad am gyfarfodydd arbennig i nodi agor coleg gan y Bedyddwyr yng Nghaerdydd a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol yng nghapel y Tabernacl ar yr Ais ac yna yng nghapel Bethany gerllaw (adeilad a lyncwyd maes o law yn rhan o siop adrannol James Howells).

Sefydlwyd coleg yn y Fenni yn 1807 i hyfforddi gweinidogion ar gyfer eglwysi'r Bedyddwyr. Symudodd oddi yno i Bont-y-pŵl yn 1836. Yna, yn 1893, symudodd y coleg eto, y tro hwn i Gaerdydd er mwyn bod yn agos at Goleg Prifysgol Deheudir Cymru a Mynwy (Prifysgol Caerdydd erbyn hyn), a agorodd ei ddrysau am y tro cyntaf ddeng mlynedd ynghynt, yn 1883.

Cafwyd cartref dros dro i Goleg y Bedyddwyr yn adeiladau Eglwys Fedyddiedig Longcross Street, lle'r oedd trysorydd y coleg, y perchennog llongau a phyllau glo, Richard Cory (1830–1914), yn ddiacon. Yna, yn Ionawr 1895, symudodd y coleg i'r adeilad yn Richmond Road sy'n parhau yn gartref iddo hyd heddiw. (Cyn hynny roedd yr adeilad yn gartref i'r neuadd breswyl i ferched, Neuadd Aberdâr, a symudodd yr adeg honno i'w safle presennol yn Heol Corbett ym mhen gogleddol Parc Cathays.)

Y dyn sy'n cludo'r coleg i Gaerdydd yn y cartŵn yw prifathro'r coleg, Dr William Edwards, a Richard Cory yw'r dyn sy'n cerdded wrth ei ochr ac yn ei annog ymlaen. Bu William Edwards yn brifathro'r coleg am dros ddeugain mlynedd, o 1880 hyd 1925. Dywedodd rhywun amdano ei fod, ar hyd y cyfnod maith hwnnw, wedi cario'r coleg nid yn unig ar ei gefn, ond hefyd yn ei galon. Ac ar ben ei gyfraniad mawr i fywyd y coleg, bu'n ŵr o gryn ddylanwad yng Nghaerdydd, ac yn wir drwy Gymru a'r tu hwnt.

Brodor o ardal Login, ar y ffin rhwng siroedd Penfro a Chaerfyrddin, oedd William Edwards (1848–1929). Cafodd fagwraeth dlawd ond duwiol yno. Roedd yn alluog iawn. Dechreuodd bregethu yn 14 oed; fe'i penodwyd yn diwtor yng ngholeg y Bedyddwyr yn Hwlffordd yn 23 oed; ac nid oedd ond yn 31 oed pan benodwyd ef yn brifathro'r coleg ym Mhont-y-pŵl yn 1880.

Roedd yn ddyn amlochrog ac egnïol. Bu'n weithgar mewn mudiadau crefyddol, dyngarol ac addysgol o bob math. Roedd yn awdur, ysgolhaig a phregethwr, yn areithiwr cyhoeddus dawnus, yn aelod amlwg o'r Blaid Ryddfrydol ac yn weinyddwr medrus. Ymddiddorai mewn chwaraeon o bob math. Roedd yn chwaraewr *croquet* ardderchog, ac yn 79 oed daliai i gyrchu Radur i chwarae golff. Nid rhyfedd i rai awgrymu ei fod yn



'myned yn iau wrth fyned yn hŷn'!

Barddonai er yn ifanc, gan ddefnyddio'r enw barddol 'Logynfab'. Dyma enghraifft o englyn a luniodd yn 1870, pan oedd yn fyfyriwr diwinyddol, i gyfarch y gweinidog Bedyddiedig, John Jones ('Mathetes'), a'i wraig, Elizabeth Tye Davies, ar achlysur eu priodas:

Môr o gysur mawr geisiaf, — O! Dduw,
  I'r ddau ddyn anwylaf;
Eu bywyd fo'n hyfryd haf –
Hyd ddiwedd boed ddianaf.

Cyfieithodd nifer o emynau Cymraeg i'r Saesneg, gan ddangos cryn fedr wrth y gwaith hwnnw, ac mae 'Here is love, vast as the ocean', ei gyfieithiad o emyn Gwilym Hiraethog, 'Dyma gariad fel y moroedd', i'w weld hyd heddiw mewn llawer o gasgliadau emynau ac i'w glywed yn cael ei ganu ar ddegau o recordiadau ar YouTube gan bobl ar draws y byd.

'Dyma gariad fel y moroedd' oedd un o'r emynau a genid amlaf adeg Diwygiad 1904/05. Un o brif ganolfannau'r Diwygiad hwnnw yng Nghaerdydd oedd capel y Tabernacl ar yr Ais. Yn anterth y Diwygiad cynhelid cyfarfodydd yno bob nos hyd oriau mân y bore, a dywedir fod tua 700 o bobl wedi cael tröedigaeth ynddynt. Un o arweinwyr amlycaf y cyfarfodydd diwygiadol yn y Tabernacl oedd William Edwards, ac ni chyfyngwyd ei weithgarwch i'r cyfarfodydd hynny yn unig, oherwydd bu ef a'i wraig, Sarah Ann, yn amlwg iawn hefyd yn y gwaith dyngarol a gydredai â'r Diwygiad. Er enghraifft, rhannwyd galwyni lawer o gawl pys yn y Tabernacl i fwydo'r tlodion, a'r plant yn enwedig, ac am gyfnod neilltuwyd ystafell yng Ngholeg y Bedyddwyr lle y gallai rhai digartref gysgu am ychydig nosweithiau tra ceisid cael cartref sefydlog ar eu cyfer.

Roedd William Edwards yn Gymro twymgalon. Un tro gofynnodd y pregethwr Saesneg grymus a ffraeth, C. H. Spurgeon, iddo, 'Os Cymraeg oedd iaith Gardd Eden, pryd y daeth y Saesneg i fod?' 'Ar ôl y Cwymp,' oedd ateb cyflym William Edwards. Pan ddechreuodd ar ei waith yn brifathro Coleg y Bedyddwyr ym Mhont-y-pŵl, gwnaeth Ramadeg Cymraeg yn un o brif bynciau'r maes llafur, ac un o'r tasgau a osodai i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf oedd cyfieithu llyfr cyntaf *Paradise Lost* John Milton i'r Gymraeg!

Ond uwchlaw pob dim, gosodai bwys mawr ar y Beibl. Daeth yn feistr ar Roeg y Testament Newydd. Paratôdd gyfieithiad Cymraeg newydd o'r Testament Newydd, gyda nodiadau testunol helaeth, sy'n parhau'n ddefnyddiol heddiw. Ac ar ôl blynyddoedd lawer o'i astudio'n fanwl, arhosai'n ddiysgog ei gred mai'r Beibl oedd Gair datguddiedig Duw a'r unig ganllaw ddigonol a diogel ym materion cred ac ymddygiad.

*[Am drafodaeth fanylach ar gyfraniad Dr William Edwards, gweler f'erthygl amdano yn Cristion, 142/143 (2007).]*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Gan gydnabod erchylltra'r diflastod, pryder, tristwch a galar yn ein sefyllfa bresennol mae un agwedd wedi denu fy sylw, sef, ansawdd yr iaith a ddefnyddir gan wleidyddion a darlledwyr, ar un llaw, a gwyddonwyr ar y llaw arall, mewn datganiadau a sgyrsiau cyhoeddus. Gyda rhai enghreifftiau nodedig o gyfrifol, mae'r dosbarth cyntaf yn dal i fod yn ysu am 'eglurder', fel petaent yn chwilio am sylwadau y gallant eu defnyddio i fachu'r datgeinydd a pheri iddo/hi ymddangos yn gelwyddog neu yn anwybodus.

Fel arall mae'r gwyddonwyr a meddygon; mae eu datgan hwythau wedi'i fritho gan eiriau megis, 'tua', 'tebygol/tebygolrwydd', 'posibl/posibilrwydd'. Cefais fwynhad (a bod yn onest) yn ddiweddar o wylio rhaglen deledu pan oedd y newyddiadurwr Robert Peston mewn sgwrs gyda'r Athro Jonathan Van-Tam, Dirprwy Brif Swyddog Iechyd ar fater y 'profion' at ganfod presenoldeb y Coronafirws yn y boblogaeth. Yn ei ddull heriol arferol, sy'n gallu bod yn briodol dreiddgar, dyma Peston yn gwneud datganiad, gan beri i Van-Tam dorri ar ei draws: 'Mr Peston, rydych yn gwbl anghywir. Nid felly y mae'r ddau brawf'. Trawyd Peston yn llwyr oddi ar ei echel.

Fy meddwl i oedd ei fod wedi derbyn ei haeddiant am ei ddiogi newyddiadurol trwy hepgor ymdrech i wybod mwy am fater lle nad oedd ganddo arbenigedd. A ydw i'n iawn (ac yn hunangyfiawn) wrth holi am ddiffyg gostyngeiddrwydd Peston? Rwy'n cofio darllen yn rhywle am sylw gan wleidydd am y gwahaniaeth rhwng gwleidydd a gwyddonydd yn y cyd-destun hwn: 'Mae gwleidydd yn dadlau gyda golwg ar ddod i benderfyniad, mae gwyddonydd yn dadlau gyda golwg ar ddod i gasgliad'.

Yn fy nhyb i, mae'r ymrafael hyn yn deillio o'r gred gyffredinol gan y cyhoedd fod gwyddoniaeth yn seiliedig ar arferion a ffeithiau cwbl ddiogel a gwir. Yn rhyfedd, mae gwyddoniaeth, ar draws mathau gwahanol, yn seiliedig ar arsylwadau a mesuriadau sy'n 'sigledig', gan berson a theclyn, pa mor ddysgedig a chain bynnag ydynt. Ni ellir gwarantu manwl-gywirdeb (*exactness*), yn wir nid yw'r fath gysyniad yn bodoli yn unman. Mae pob mesur yn ddiffygiol, yn annigonol i ryw raddau. Nid ansicrwydd, yn yr ystyr o anhawster dod i benderfyniad, yw'r broblem, ond ansicrwydd yn yr ystyr o geisio gosod rhif ar bapur sydd yn iawn - a llawn - gynrychioli'r mesur dan sylw. Dyna pam mae geiriau megis, 'tua', 'lled gywir', 'bras' mor bwysig mewn gwyddoniaeth. Y term Saesneg am hyn yw '*errors*' (nid *mistake/*camgymeriad) gyda'r arwydd ± yn dynodi maint yr amrywiaeth o'r 'gwir'. Felly, er enghraifft, 11.7 ± 0.1 ,sef, rhwng 11.6 a 11.8.

Cewch brofiad o hyn os mentrwch roi mesur o hyd tudalen mewn llyfr. Cofiwch os ydych am leihau'r ansicrwydd, rhaid talu mwy am declyn mwy cain.

Tybed a oes lle i ± mewn iaith a datganiad?

*Neville Evans*

# ADDYSG GYMRAEG – GORFOLEDD

Fis Mawrth roeddwn yn gallu datgelu bod nifer y ceisiadau am le mewn addysg gynradd Gymraeg wedi cyrraedd 779, yr arwydd cyntaf o dwf ers 2016. Erbyn hyn, mae newyddion anhygoel wedi cyrraedd bod cyfanswm y ceisiadau wedi cynyddu eto gan 71 i gyrraedd y cyfanswm o 850, sef 10 cais yn fwy na'r cyfanswm o 840 lle, sef 28 ffrwd, sy ar gael. Mae'r sir wedi cynnig 754 lle, gan adael 96 i geisio lle mewn ysgol arall.

Mae 10 ysgol yn llawn neu'n orlawn a 7 â lle dros ben. Dyma enwau'r ysgolion mewn ardaloedd daearyddol gyda'r nifer wedi derbyn lle a'r nifer heb le yn dilyn:

DWYRAIN PELL – Bro Eirwg (60 – neb heb le); Pen y Pil (28 - 2 le ar gael)

DWYRAIN AGOS – Glan Morfa (43 -17 lle ar gael); Y Berllan Deg (60 - 8 heb le); Penygroes (18 - 12 lle ar gael)

GOGLEDD CANOL - Y Wern (90 - 14 heb le); Melin Gruffydd (60 - 11 heb le); Mynydd Bychan (30 - 22 heb le); Pencae (30 -16 heb le); Glan Ceubal (26 - 4 lle ar gael). Yn y grŵp hwn o 5 ysgol mae cyfanswm o 73 wedi methu cael lle a dim ond 4 lle sy'n wag mewn ysgol arall yn yr ardal

GORLLEWIN – Gwaelod-y-Garth (30 -1 heb le); Creigiau (21 - 9 lle ar gael); Coed y Gof (26 - 34 lle ar gael); Nant Caerau (30 – neb heb le)

DE-ORLLEWIN - Treganna (90 - 17 heb gael lle); Pwll Coch (52 - 8 lle ar gael); Hamadryad (60 -7 heb le)

Felly ar hyn o bryd does dim problem yn y Dwyrain Pell eleni ac mae cynllun yn llusgo ymlaen i helaethu Pen y Pil i 2 ffrwd. Os bydd yr 8 sydd heb le yn Y Berllan Deg yn fodlon dewis naill ai Penygroes neu Glan Morfa fe ellid cynnig lle yn yr ardal.

Ond dyw'r 4 lle gwag yn ysgol Glan Ceubal ddim yn ddigonol i leoli'r 73 sy wedi methu cael lle yn y 4 ysgol arall. Mae'r arian ar gael i helaethu Mynydd Bychan i dderbyn 60, ond yr unig ffordd i wneud hyn yw trwy symud yr ysgol i adeilad mwy, h.y. i ysgol Saesneg gyfagos sy'n fwy na hanner gwag. Mae'r sir yn ystyried hyn ond yn symud fel malwod cloff. Mae argyfwng yn bodoli nawr ac mae angen gosod mwy nag un dosbarth mewn ysgolion eraill dros dro i greu o leiaf 60 lle ychwanegol. Digwyddodd hyn yn ôl yn 2007 ac fe dyfodd Nant Caerau, Pen y Pil a Tan yr Eos o'r cynllun.

Mae gan y sir gynlluniau, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, i helaethu Nant Caerau, Pen y Pil a Mynydd Bychan a chynllun arall i agor ffrwd Gymraeg mewn ysgol newydd ym Mhlasdŵr, sef i ddarparu cyfanswm o 4 ffrwd ychwanegol (120 lle). Roedd yn anodd dwyn pwysau ar y sir i wireddu'r cynlluniau hyn pan oedd ond tua 715 cais ac 840 lle ar gael. Mae'n wahanol nawr gyda 115 o blant ychwanegol wedi ymddangos yn sydyn i lenwi'r dosbarthiadau gwag ac mewn sefyllfa pryd mae dros 20% o ddisgyblion newydd Caerdydd yn dewis Addysg Gymraeg. Felly mae'r cyfnod hesb ers 2016 wedi dod i ben, sy'n golygu bod gwaith i'w wneud i hwyluso derbyn pob un o'r to newydd o blant sy'n ceisio Addysg Gymraeg.

Llynedd y nifer yn dewis Cymraeg fel prif opsiwn oedd 686 er bod y cyfanswm yn y diwedd wedi codi i 714. Eleni mae'r rhif wedi codi i 779 ac mae hyn yn arwyddo canran ychydig yn brin o 20% o'r plant i gyd. Yn yr ysgolion unigol, mae'r twf rhyfeddaf wedi digwydd yn ysgol newydd Hamadryad sydd wedi denu 68 cais ac felly yn orlawn. Mae Ysgol Treganna wedi adfer y sefyllfa o fod yn orlawn gyda 96 cais. Yn ffodus bydd modd cynnig lle i'r 14 dros ben yn Ysgol Pwll Coch sydd wedi derbyn 45 cais am ei 60 lle. Mae Melin Gruffydd, Y Wern, Y Berllan Deg a Mynydd Bychan i gyd yn orlawn, yr olaf yn arbennig felly gydag 16 yn methu cael lle a dim lle mewn ysgol arall sy'n agos. Mae'r sir wedi cael dros £3m ar gyfer helaethu Mynydd Bychan ond o hyd yn ymgynghori ar sut i wario'r arian er mwyn datrys y galw am leoedd ychwanegol. Ysgolion sy'n gyfforddus lawn yw Y Creigiau, Gwaelod-y-Garth, Nant Caerau, Bro Eirwg a Phen y Pil. Dyw Coed y Gof a Penygroes ddim yn llawn.

Os bydd y 779 sy wedi ceisio yn llwyddo i gael lle derbyniol a, gwell byth, os bydd mwy yn cyrraedd gyda cheisiadau hwyr ni fydd cymaint o leoedd gwag yn yr 840 lle sydd ar gael yn y sector cynradd Cymraeg, a bydd yn haws pwyso ar y sir i wario'r arian sydd ar gael i helaethu Nant Caerau, Pen y Pil a Mynydd Bychan i godi'r ffrydiau Cymraeg o'r 28 presennol i 31 ac i 32 pan fydd ysgol newydd Plasdŵr yn agor yn 2021. Mae'r hysbysiad statudol i agor Plasdŵr newydd ei gyhoeddi.

Yn y sector uwchradd 608 yw nifer y plant eleni sydd wedi derbyn lle. 960 fydd y nifer yn symud lan o sector cynradd gyda 32 ffrwd, rhifau sy'n dangos yr angen am helaethu'r sector uwchradd lle mae 21 ffrwd.

*Michael Jones*

## Diolch! Ma pob un o chi werth y byd!

Ar glawr rhifyn Ebrill o'r *Dinesydd* fe ymddangosodd poster lliwgar ac arno'r geiriau uchod – yn diolch i bawb sy'n gwneud eu rhan yn y frwydr yn erbyn y coronafeirws.

Mae'r pennawd yn awgrymu mai disgyblion Ysgol Melin Gruffydd a luniodd y poster – ond na! Mae e'n dod o wefan @rubydoobydoodles – ac fe welir ei llofnod/cyfeiriad yn y gornel dde ar waelod y poster.

Y cysylltiad ag Ysgol Melin Gruffydd yw bod un o'n darllenwyr wedi gweld y poster ar dudalen Facebook yr ysgol.

Ymddiheurwn am y camgymeriad.



# Ryseitiau Merch y Ddinas



## "Cawlach go iawn !"

**Lowri Haf Cooke**

Wel yn wir. Does dim digon o oriau yn y dydd! Rhwng y golchi a'r sychu llestri, pobi, arbrofi a choginio, dwi'n byw a bod yn y gegin ar hyn o bryd. Wedi rhodd o 'daniwr' (neu 'starter') surdoes ganol mis Mawrth, dwi'n gweithio toes bara cyn codi cŵn Caerdydd. Ac wrth geisio cadw at gyllideb, ac osgoi gwastraff bwyd, mae fy mharch at fy nghyn-neiniau yn cynyddu bob dydd.

Gobeithio i'r golofn ddiwethaf eich ysbrydoli i fynd i hela am arlleg gwyllt wrth fynd am dro yng Nghaerdydd a'r Fro. Rwy'n dal i ddilyn y rysáit honno (cawl tomato a phupur rhost a garlleg gwyllt) ymhell dros fis ers cychwyn y *'lock-down'*. Rhaid gwneud y mwyaf o'r deiliach sawrus tra eu bod yn eu blodau – byddant wedi mynd yn llwyr ymhen y mis! Dwi 'di rhostio'r dail gwyrddion gyda chig oen ar b'nawn Sul, a'u cynnwys mewn omlet blasus cennin a tsili gwyrdd. Ond efallai mai'r saig yr wyf wedi'i chreu ohonynt yn fwy na'r un yw *pesto* garlleg gwyllt. Mae'n eithriadol o flasus wedi'i daenu ar fara surdoes, llwyaid ohono mewn powlen o gawl, neu wedi'i gymysgu'n dda â llond plât o sbageti, os nad oes yr egni gen i goginio swper mawr.



Ar gyfer creu'r pesto, cymerwch lond dwy law o ddail garlleg gwyllt, a'u torri'n fân cyn eu pastynnu mewn pestl a mortar (neu beiriant cymysgu). Yna 'tostiwch' werth dwy lwy fwrdd o gnau pîn (mae bagiau bychain ohonynt i'w canfod mewn siopau bwyd cyflawn ac archfarchnadoedd ar hyn o bryd) mewn ffrimpan sych (hynny yw, heb olew) ar wres cymhedrol, gan droi'n gyson am ddeg munud, tan y byddant yn euraidd eu lliw. Wedi iddynt oeri, ychwanegwch y cnau at y deiliach gwyrdd, a'u pastynnu i ddatblygu pâst gwyrdd. Gratiwch ddwy lwy fwrdd o gaws caled Eidalaidd (er enghraifft, Parmesan neu Gran Padano), a'u hychwanegu at y gymysgedd, ynghyd â phedair llwy fwrdd o olew olewydd, gwasgiad o sudd lemwn a phinsiad o bupur. Cymysgwch y cyfan yn dda, yna gosodwch y *pesto* mewn jar bach, a'i gadw yn yr oergell am hyd at wythnos. Bendigedig – a defnyddiol iawn!

Hefyd yn eu hanterth ar hyn o bryd y mae danadl poethion, sydd i'w canfod ledled Bro Morgannwg a Chaerdydd. Mae bron yn boenus i mi'ch hysbysu taw nawr yw'r amser gorau i fynd i'w casglu, gyda phâr o fenyg trwchus iawn! Mae hefyd bron yn ddeugain mlynedd ers i mi brofi andros o dro cas, pan 'rowliodd Lowri lawr yr allt'. Druan â Mam-gu, ro'n i yn ei gofal hi pan syrthiais i'n bendramwnwgl i ganol y dalan poethion ger Parc y Rhath. Ond ges i ddial arnynt o'r diwedd wrth greu pesto ffantastic ohonynt (fel y rysáit uchod, ond rhaid berwi'r dalan yn gyntaf am funud a hanner, cyn eu sychu'n drwyadl mewn lliain, eu torri, a'u hychwanegu – ynghyd â 2 gewin garlleg wedi'u torri'n fân - at y caws parmesan a'r cnau pîn), a hefyd y clasur o bob '*survivalist's cookbook*': cawl danadl poethion.

Pam lai rhoi tro arni, medden i wrthyf fy hun, gan ddychwelyd i'r '*scene of the crime*'! Ro'n i'n teimlo fel croes rhwng lleidr a Michael Jackson gydag un faneg ymlaen, ond fe weithiodd yn tsiampion wrth bigo'n ofalus lond bag o'r dail pigog yn ddi-boen. Y gyfrinach ydy i'w casglu nhw nawr, ar ddechrau'r gwanwyn fel hyn, tra bod y dail dal yn ysgafn – a llenwch lond bag, oherwydd mae nhw'n crebachu'n sylweddol mewn dŵr. Mae blas *brassica* dwys ar y deiliach gwyrdd tywyll, nid annhebyg i sbigoglys neu frocoli. Mae nhw'n llesol tu hwnt, ac wrth fwyta'r *pesto* neu'r cawl, mae fel derbyn chwistrelliad o egni i'r gwaed!

**Cawl Danadl Poethion**

80g o Ddanadl Poethion (gwerth llond bag canolig)
2 Goesyn Seleri
2 Shibwnsyn
1 Nionyn
3 Gewin Garlleg
1 Genhinen
1 Llwy Fwrdd o Fenyn neu Olew Olewydd
2 Giwb o Isgell (Stoc) Llysiau

1. Torrwch y llysiau gwyrddion yn fân, ac estynnwch am ddesgyl caserôl. 'Chwyswch' y llysiau gyda llwy fwrdd o fenyn (neu olew olewydd) ar wres cymharol isel am ddeg munud, gyda'r caead ymlaen. Yna ychwanegwch 1 litr o stoc llysiau mewn dŵr berwedig ar ben y llysiau, a dewch â'r gymysgedd i'r berw, cyn troi'r gwres gryn dipyn is.
2. Yn y cyfamser, trochwch y dalan poethion mewn sosban llawn dŵr berw am funud a hanner. Cyflwynwch nhw i'r dŵr gyda '*tongs*' yn ofalus rhag ofn i chi gael eich pigo, yna – wedi munud a hanner - tywalltwch y dŵr llawn dalan poethion i fewn i gogor.
3. Ychwanegwch y danadl poethion i'r gymysgedd llysiau gwyrddion, a ffrwtiwch y gymysgedd, ar wres cymhedrol, am chwarter awr.
4. Estynnwch beiriant cymysgu (rwy'n defnyddio cymysgydd llaw, fy hun) a cymysgwch y 'cawl' yn dda am funud. Fe ddylai'r lliw gwyrdd tywyll efelychu cymeriad crintachlyd Oscar The Grouch, oedd yn byw mewn bin sbwriel ar Sesame Street!
5. Tywalltwch y cawl i bowlen, gan ychwanegu gwasgiad o sudd lemwn, halen a phupur a llwyaid o hufen sur, neu iogwrt plaen. Mwynhewch ar y cyd â thafell o fara menyn, neu – gwell fyth - wedi'i daenu â'r *pesto* danadl poethion. Blasus iawn!

# Carys Puw Williams



*Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Carys ar y 13eg o Ebrill. Roedd wedi bod yn Ysbyty'r Brifysgol ers dechrau mis Hydref diwethaf ac er iddi gael triniaeth ddwys yno, ni chafodd wella'n ddigon da i ddod adre.*

*Cydymdeimlwn yn fawr â'r merched, Non a Sara, a'r teulu oll, yn eu colled ac yn eu galar. Hyderwn y bydd yr atgofion isod gan Elen Rhys a Mair Robins nid yn unig yn deyrnged fechan i Carys ond hefyd yn gysur i'r teulu yn ei hiraeth.*

## Cofio Carys Puw Williams - cyfaill a brenhines y byd Cerdd Dant

Er mai dim ond ers rhyw ddeuddeg mlynedd dwi'n gallu galw Carys Puw Williams yn ffrind i mi, dwi'n teimlo fel 'tawn i yn ei nabod hi erioed, rywsut.

Fel un sydd wedi eisteddfota a chanu cerdd dant er pan yn blentyn, ro'n i'n gwybod am ei chwedloniaeth hi a'i chwaer, Beti Puw Richards, ers blynyddoedd. Brenhines byd y Cerdd Dant, 'dynes y pethe' ac yn un oedd yn 'gwybod ei stwff' os oedd hi'n beirniadu, a'i beirniadaeth wastad yn deg.

Roedd Mam wastad yn sôn ei bod hi'n cofio Carys yn canu mewn eisteddfode a'i llais hyfryd fel eos yn ennill cystadlaethau ar draws Cymru, yn y Genedlaethol, ac yn canu ar y gyfres deledu *Hob y Deri Dando*. Roedd hi'n adnabyddus hefyd am ganu deuawdau gyda'i chwaer, a'i brawd hefyd yn ymuno â nhw i greu Triawd Cynythog. Bu ei magwraeth ar aelwyd Cynythog Bach, Llidiardau ger y Bala, yn un brysur, llawn cerddoriaeth a diwylliant Cymreig. Roedd eu tad, Caradog Rhys Puw, yn ganwr ac yn hyfforddwr brwd o bartïon, yn enillydd a beirniad cenedlaethol ar gystadlaethau cerdd dant a chlocsio. Fo hefyd oedd un o sylfaenwyr y Gymdeithas Cerdd Dant yn y tridegau cynnar. Oedd, roedd y Pethe yng ngwaed teulu dawnus Cynythog Bach.

Wrth siarad efo Beti i gydymdeimlo â hi, soniodd hi wrtha i mai Carys oedd un o'r enillwyr ieuengaf yn hanes Eisteddfod yr Urdd. Enillodd ar yr unawd dan wyth ym Mhontarddulais, 1949, a hithau 'mond yn bump oed yn canu 'Seren Loyw yn y Nen'. A'r pennawd yn y papur wedi iddi ennill? 'A little tot in a green frock wins first prize'. 'Dwn i'm pa liw oedd ei gwisg wrth iddi ennill Gwobr Goffa Lady Herbert Lewis yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala flynyddoedd yn ddiweddarach ym 1967, ond mi fentraf ei bod yn werth ei gweld. Mae llun du a gwyn hyfryd ohoni yn y gyfrol ddiweddar o Hanes Gwobr Goffa Lady Herbert Lewis a hithe'n ferch hardd dair ar hugain oed a'i gwallt hir cyn ddued â'r frân. Roedd wastad steil yn perthyn i Carys.

Des i nabod Carys go iawn pan oedd fy merch i, Nansi, yr un oed â'r ferch fach mewn ffrog werdd ac yn barod i ddechre canu cerdd dant. Gyda ni'n dwy yn byw yn Llandaf, pwy well felly i roi Nansi ar ben ffordd na Carys? - a dyma gysylltu â hi. Des i ddeall yn sydyn iawn bod 'na dipyn mwy i Carys Puw Williams na'r chwedloniaeth - a gweld yn syth pam yr oedd gan bawb gymaint o feddwl ohoni.

Roedd yr enw Carys yn ei siwtio hi - y 'Car', wrth gwrs, yn dynodi 'cariad'. Yn wir, mae rhestr faith o ansoddeirie sy'n dangos y cariad oedd tuag ati yn dechre â'r llythyren 'c' - sylwais ar hynny wrth ddarllen y cannoedd o negeseuon oedd ar Facebook yn canmol, cofio ac yn cydymdeimlo â'r teulu. 'Cymeriad, caredig, Cristion, cynnes, cymdeithasol, cerddor, cantores, cyfeillgar, cartrefol a llawn calon' yn eu plith. Mi fydde Nansi yn ychwanegu 'cwtshlyd' i'r rhestr gan doedd dim gwell ganddi i wella diwrnod blin na mynd at Carys a chael 'cwtsh' oedd yn gafel. Roedd 'na berthynas hyfryd rhwng Nansi a Carys - a'r ddwy yn deall ei gilydd i'r dim. Roedd Carys yn gwybod yn union sut i ddelio yn cŵl braf â'r gore a'r gwaetha o blentyn, o pan yn bump oed hyd ei harddegau. On'd oedd hi wedi hen arfer, a hithe wedi bod yn athrawes yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd lle gwnaeth gyfraniad anferth i ddiwylliant Cymreig cannoedd o blant dros y blynydde? Ond mae'r hanes hwnnw yn haeddu cyfrol.

Er mor wych oedd Carys am ddysgu Cerdd Dant, roedd mynd ati yn llawer mwy na'r wers, a Nansi a finne wastad yn teimlo'n well wedi cael dos o Carys. Bydde orie yn mynd heibio yn sgwrsio, chwerthin a jest bod yn ei chwmni difyr. Fydde 'na neb yn well na hi am werthu tocynnau i mi ar gyfer gweithgareddau codi pres Apêl Llandaf ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, gymaint oedd ei chylch ffrindie ym mhob man. Dynes boblogaidd a chymdeithasol oedd hi, yn nabod pawb ac yn perthyn i bopeth - y côr Hen Nodiant, Merched y Wawr, pwyllgor y Gymdeithas Cerdd Dant, ac yn ffyddlon i Gapel Bethel ym Mhenarth lle bu ei diweddar ŵr, y Parchedig Meurwyn Williams, yn weinidog.

Ond yn fwy na dim, ei theulu oedd ei byd. Roedd hi mor falch o lwyddiant Non a Sara ei merched, y ddwy mor agos a ffeind i'w mam. Ac wrth gwrs roedd hi'n dotio at ei hwyresau a'i hŵyr, Elliw, Awen, Mei ac Alaw ac yn eu sbwylio'n rhacs, ac y nhwythau hithe. Roedd y cariad clòs teuluol yn un sbesial.

Bydde Carys yn dod gyda Nansi a finne am drip i steddfode mawr yr Urdd, yr Ŵyl Cerdd Dant a'r Genedlaethol. Am brofiade i'w trysori oedd y rheiny, a'r siwrne yn y car wastad yn anelu am siop ddillad go swanc neu drafod ble i stopio i gael y '*bar meal*' gore. Doedd byth brys arni, wastad yn cŵl braf, ac roedd y sgyrsie mor ddifyr wrth iddi adrodd hanes ei bywyd. Ro'n i'n dotio clywed sut gwrddodd hi â'i gŵr, Meurwyn, pan oedd yn weinidog yn Nhrawsfynydd ac yna ei bywyd cosmopolitaidd, lliwgar pan yn byw yn Detroit yr UDA pan oedd ef yn weinidog yno. Dychwelyd wedyn i bentre bychan ond diwylliedig y Brithdir, ac yna Penygroes, cyn setlo yng Nghaerdydd wrth i Meurwyn ddechrau ar ei swydd fel Pennaeth yr Adran Grefydd yn Radio Cymru.

Roedd 'na gymaint o haene yn perthyn i Carys, a hithe'n gallu perthyn a gadael ei marc ym mhob man.

Ond merch o Sir Feirionnydd a Cynythog Bach oedd hi o hyd.

Doedd neb gwell na hi wrth aros am ganlyniad rhagbrawf ac roedd wastad hwyl i'w gael. Os nad oedd llwyddiant a llwyfan, 'Wel dyna i ti gam!' fydde'r ateb hwyliog, a mynd am rywbeth neis i fwyta yn syth bin. Wrth i'w hiechyd ddirywio a'r cerdded fynd yn anos, bydden ni'n cael defnyddio ei thocyn anabl a pharcio reit wrth ochr mynedfa'r Eisteddfod, oedd yn dipyn o jôc rhyngom ein tair. Roedd hi'n gweld y gore o bob sefyllfa anodd. Yn Eisteddfod Llanrwst roedd y tro diwetha i hynny ddigwydd. Doedd hi ddim digon da i ddod i'r Ŵyl Cerdd Dant yn Llanelli, ond postiodd Sara lun i mi o Carys yn yr ysbyty yn gwylio Nansi ar ei *ipad* yn canu ar y llwyfan. Trysorwn y llun am byth.

Bu Carys yn ddewr at y diwedd. Yn ddi-os, mae Cymru wedi colli un o'r gore, a hithe, fel Meurwyn, wedi gadael ei marc ar ein diwylliant. Ond fel Carys y cyfaill y byddaf yn ei chofio. Diolch am bob dim, Carys. X

*****

*Fel y dwedodd Elen, byddai angen cyfrol gyfan i sôn am 'gyfraniad anferth Carys i ddiwylliant Cymreig cannoedd o blant dros y blynydde' tra oedd hi'n athrawes yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd. Mair Robins oedd Pennaeth yr ysgol yn ystod blynyddoedd olaf Carys yno cyn ymddeol. Gofynnwyd i Mair am ychydig frawddegau i grynhoi ei hargraffiadau*.

Bu Carys yn aelod gwerthfawr o staff Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd am flynyddoedd. Roedd ganddi ffordd eithriadol o dda a llawn hwyl gyda'r plantos lleia. Roedd yn eu caru, a hwythau'n ei charu hithau.

Byddai'n rhannu dyfnder cyfoeth Cymreictod ei chefndir yn hwiangerddi ac alawon gwerin, storïau a barddoniaeth a dywediadau bachog o'r cychwyn cyntaf. Er bod nifer helaeth o'r disyblion o gefndiroedd di-Gymraeg, buan iawn y byddai rheiny'n blodeuo wrth ddod i'w deall ac i fedru ymateb iddi.

Cyn dyddiau Iechyd a Diogelwch, Carys oedd deintydd (answyddogol) yr ysgol! Pan oedd plentyn yn crio am fod dant yn siglo, byddai Carys yn dweud, "Gad i mi weld", a chyn pen chwinciad byddai'r dant yn ei llaw a'r plentyn yn gwenu'n braf, gan ddangos bwlch pert yn ei geg!

Roedd Carys yn fedrus iawn wrth y piano. Roedd ganddi'r ddawn o allu codi tonau a chaneuon dim ond wedi eu clywed unwaith, a bu'n cyfeilio i sioeau'r adran bob blwyddyn. Roedd corau a phartïon Cerdd Dant yr ysgol yn aml fuddugol mewn Eisteddfodau Sir a Chenedlaethol wedi i Carys ddefnyddio'i gallu i greu'r gosodiadau a thrwytho'r disgyblion i ganu'n gerddorol ac yn ystyrlon. Cafodd lawer o bleser yn paratoi at yr eisteddfodau ac mae'n siŵr bod nifer o'r disgyblion, sydd bellach yn oedolion, wedi rhannu'r pleser hwnnw ac yn cofio'r profiadau hyd heddiw.

*****

*Bu Meurwyn yn weinidog ym Methel, Penarth, a bu Carys yn aelod ffyddlon yno hyd y diwedd. Yn yr adran Newyddion o'r Eglwysi yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd, fe welir teyrnged bellach ar ffurf nifer o atgofion gan aelodau'r capel, a gasglwyd gan Dr Neville Evans.*

# Bob Roberts



### Yr Urdd yn talu teyrnged i Lywydd Anrhydeddus

Gyda thristwch y mae Urdd Gobaith Cymru yn talu teyrnged i un o Lywyddion Anrhydeddus y mudiad, Bob Roberts, a fu farw ddydd Mercher, 22 Ebrill. Bu Bob ac Ann, ei briod, yn hynod weithgar a chefnogol i'r Urdd dros ddegawdau. Bu'n Drysorydd am naw mlynedd ac yn Gadeirydd am chwech. Bu'n Ymddiriedolwr ac roedd yn parhau i fod yn Llywydd Anrhydeddus.

Yn wreiddiol o ardal Harlech a Phennal, bu Bob yn byw yn Llandeilo ac yna Llanedi erbyn hyn. Treuliodd ef a'i wraig flynyddoedd yng Nghaerdydd, gan weithio'n ddiflino i gynorthwyo gyda rhedeg canolfan yr Urdd ar Heol Conwy yr adeg honno. Yn ogystal â chefnogi ar lefel leol, sicrhaodd Bob Roberts sylw cenedlaethol i'r mudiad a oedd yn agos iawn at ei galon. Bu ef ac Ann yn ganolog ac yn hynod lwyddiannus wrth drefnu gêm rygbi fawr i ddathlu hanner canfed pen-blwydd yr Urdd yn 1972. Gelwid hi yn Gêm y Jiwbilî, gyda dau gawr y byd rygbi yn arwain dau dîm - Barry John, yn ei gêm olaf, a Carwyn James – a dros 35,000 o gefnogwyr yn gwylio.

Meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:

"Roedd Bob Roberts yn angerddol am yr Urdd. Roedd yn barod i drafod, siarad a dadlau gydag unrhyw un er budd y mudiad. Bu'n hyrwyddo achos yr Urdd ar lefel wleidyddol yn y Swyddfa Gymreig, cyn dyddiau'r Cynulliad, gan ofalu bod Ysgrifennydd Gwladol ar ôl Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi datblygiad y mudiad. Mae ein diolch yn fawr iddo."

Yng ngeiriau'r Cadeirydd, Dyfrig Davies:

"Roedd ei siort yn brin a'i barodrwydd i weithio dros bob peth da a chyfiawn yn anhygoel. Mae'n rhyfedd i ni yn yr Urdd golli dau o'n Llywyddion Anrhydeddus mewn cyfnod mor fyr - Prys Edwards a Bob Roberts - dau a roddodd yn ddiflino i'r mudiad. Pan ddaw'r amser priodol, ein braint fydd coffáu'r ddau gyda chydweithrediad eu teuluoedd yn y modd mwyaf addas."

Mae'r Urdd fel mudiad yn anfon ein cydymdeimlad diffuant at ei briod Ann a'u plant.

# Dafydd Huws
# 1949-2020

**Sgrifennu am y byd yn grwn**




Fe ddes i i nabod Dafydd yn y coleg yn Aber yn 1970. Fe oedd pennaeth Neuadd Ceredigion ar y prom a phan o'n i'n cael cinio bob nos yn yr islawr roedd e a sawl un arall yn gwisgo gŵn dros grys T a jîns. Hyd yn oed yr amser 'ny fe fyddai'n anwesu ei farf wrth fyfyrio.

Neuadd ddwyieithog oedd hi a'r flwyddyn 'na, os wy'n cofio'n iawn, roedd Lloeger yn whare yn erbyn Gorllewin yr Almaen yng Nghwpan y Byd ym Mecsico. Fe brynon ni sgarffie Gorllewin yr Almaen a'u gwisgo nhw yn lolfa deledu'r neuadd er mwyn hala'r Saeson yn grac.

Roedd Dafydd wedi ennill mewn ambell i Steddfod yn Ysgol Brynrefail ond ni ddilynodd gwrs Ysgrifennu Creadigol Bobi Jones yn y coleg am ei fod yn 'fecanyddol'.

Bob wythnos rhwng 1971 a 1982 fe oedd awdur colofn deledu Charles Huws yn *Y Faner*. Tipyn o gamp. I rai, y golofn oedd y rheswm penna am ddarllen y papur gan ei bod yn chwa o awyr iach. Roedd yn sgrifennu'n bryfoclyd, yn ddifyr, yn rhoi pin ym malŵn y sefydliad, gan gynnwys gwleidyddion fel 'Nihil Kinnock'.

Wrth adolygu rhaglen *Tomos a Thitw*, dywedodd: ' ... gwan, corni, di-fflach oedd y sgript nad oedd ynddi i mi gymaint ag un lein ddoniol ... Onid yw'r Gymru Gyfoes yn gyforiog o sefyllfaoedd cymdeithasol yn crefu am driniaeth ddychanol?'

Yn 1978 fe gafodd *Dyddiadur Dyn Dwad* ei chyhoeddi. Cyhoeddiadau Mei oedd y cyhoeddwyr cynta ac roedd yr awdur wedi edrych ymlaen at fodio'r copi cynta. Pan agorodd y gyfrol fe dasgodd y styffylau dros ei benliniau.

Roedd wedi darllen *Dubliners* Joyce ac am sgrifennu am y byd yn grwn nid rhannau dethol ohono fe. Ar un lefel, ei nod oedd 'rhoi laff i'r hogia' ond roedd yn torri tir newydd, ei arddull yn garnifalaidd, yn ysgawn ond yn ddychanol, yn neud sbort ar ben dosbarth canol Caerdydd wrth ddarlunio Buchedd B'r brifddinas.

Yn y saithdegau penderfynodd diaconiaid yng Nghaerdydd wrthod dosbarthu'r *Dinesydd* oherwydd ei fod yn cynnwys straeon y Dyn Dwad. Ni wyddai'r diaconiaid ar y pryd ond roedd eu gweithred yn fwy effeithiol nag ymgyrch farchnata gref. Fe fyddai Dafydd yn gwerthfawrogi'r eironi, fod y deyrnged hon yn cael ei chyhoeddi yn *Y Dinesydd*.

Am 18 mlynedd roedd yn athro Cymraeg yng Ngholeg Illtud Sant, yn ymfalchïo bod rhai o ddisgyblion y Chweched Dosbarth wedi mynd i Brifysgol Aberystwyth. Yn y cyfweliad roedd y prifathro wedi dweud wrth Dafydd: 'Ar ddiwedd y dydd, Mr Huws, rwy i ishe athro ac rwyt ti ishe swydd.'

Fe drodd yn awdur llawn amser yn 1989. Roedd wedi treulio tri mis yn sgrifennu yn Sbaen oherwydd grant ac yn teimlo bod trobwynt yn ei yrfa wedi dod. Wedyn roedd ei sgriptiau i *Pobol y Cwm* yn raenus a'i iaith yn gyhyrog, y newid o'r lleddf i'r llon yn ei siwtio i'r dim. Roedd diddordeb mawr 'da fe mewn iaith. Pan o'n ni'n cael cinio fel dou neu dri theulu yn nhafarn Fagins yng Nglan-y-llyn fe fyddai Dafydd yn nodi rhyw ymadrodd neu gilydd yn ei ben a byddai'r ymadrodd yn neialog un o gymeriadau *Pobol y Cwm* mewn ychydig o fisoedd. Un enghraifft oedd y gymhariaeth 'drewi fel naw hewl'.

Yn 1990 fe gyhoeddodd *Un Peth 'di Priodi, Peth Arall 'di Byw* lle roedd yn feiddgar, yn arbrofol, yn whare gyda ffurf y nofel ei hun. Roedd hon yn llawn o amwyseiriau a *double entendres*. Doedd ein beirniaid llenyddol ddim yn gallu gwerthfawrogi ei waith.

Un o'i arwyr oedd y nofelydd o America, Philip Roth, a anelai at archwilio'n bryfoclyd werthoedd a moesau'r dosbarth canol yn y wlad honno ac oherwydd hynny roedd rabinau gorselog wedi beirniadu ei waith, *Goodbye Columbus*. Fel Roth roedd Dafydd wedi edrych ar y byd o'i gwmpas ac arno fe ei hunan ac wedi mynegi'r hyn a welodd yn ddewr, yn onest.

Fe fydda i'n cofio ffrind agos iawn, dyn direidus, egwyddorol, arloeswr yn ein byd llenyddol. Ma'r hiwmor sych wedi mynd ond bydd ei waith yn para.

*Martin Huws*

**ER COF AM DAFYDD HUWS**

Dy Oronwy â'i gystwyaeth ddeffrôdd
ffrae iach drwy'n gwleidyddiaeth;
ffarwél; diolch am greu'n, ffraeth,
ddoniolwch â'th ddynoliaeth.

*Jim Parc Nest*

# Colofn Hannah



*Helô 'to! Cofiwch hyn i ddechre, a ma hyn yn rhybudd bob tro, sef rhaid sicrhau eich bod yn deall sut i drin planhigion cyn eu defnyddio, ac yn eu napod, wrth gwrs. O'dd yr hen bobol yn hyddysg yn hyn o beth.*

-----------------------------------

Yn y gerdd 'Rhydcymerau' ma Gwenallt yn disgrifio'i fam-gu fel hyn:

'Rwy'n cofio am fy mam-gu yn Esgeir-ceir
Yn eistedd wrth y tân ac yn pletio'i ffedog;
Croen ei hwyneb mor felynsych â llawysgrif Peniarth,
A'r Gymraeg ar ei gwefusau oedrannus yn Gymraeg Pantycelyn.
Darn o Gymru Biwritanaidd y ganrif ddiwethaf ydoedd hi'.

Dyna ddisgrifiad perffaith o'm man-gu inne, yn enwetig 'yn eistedd wrth y tân ac yn pletio'i ffedog'. O'dd hi wastod yn gwishgo ffetog ddu, a bob dydd Gwener pan fydden i'n mynd i dre 'Bertwe, fydde hi'n gweud wrtho i 'Cishwch gwarter o egstra strongs i fi' (at y gwynt wrth gwrs). Wedi dod â nhw nôl, fydde hi'n arllw's nhw mas fel bwtwne gwyn ar y ffetog ddu, ac yna y seremoni o'u cownto nhw. Os o'dd un yn ishe fydde hi'n gofyn i fi weud yr wthnos wetyn, ond os o'dd un yn ormod wete hi ddim gair!!

Yr hanes cynta wi'n cofio am feddyginiaeth Man-gu yw stori Aberteifi, a'r planhigyn dan sylw yw Persli. O'dd croten fach yno wedi tynnu sgileted o sâm twym dros ei braich a wedi llosgi'n ddirfawr, a'r fraich yn "gig y no'th", ac er ca'l trinieth, o'dd hi ddim yn gwella'n rhy dda. O'dd perthynas 'da Man-gu yn byw drws nesa i'r groten fach, ac yn gwpod bod yr eli persli 'ma 'da hi yn gwella anhwyldere ar y cro'n, felly, dyma hi'n awgrymu bod nhw'n gofyn i Man-gu i ddwad lawr ac i ddwad â'r eli 'da hi, a dyna wnaethpwyd. Fe wellws y fraich fach yn hyfryd. Dw i'n catw potyn o hwn bob amser. Wel beth yw e gofynnwch? Reit 'ma ni off!

O'dd sgilet harn fach 'da Man-gu, ma hi nawr 'da fi, a fydde hon ar y pentan a thwlpyn o lard yn toddi. Wetyn fydde hi'n torri llwythi o bersli miwn i'r lard a'i ddoti fe miwn dwpler ar slabyn y pantri i oeri a chaletu. 'Na fe! 'Na gyd! ELI GWYRDD! Yn y sgilet ma o'dd hi'n neud ei bwyd i gyd 'fyd - cig, winwns, tato yn oefad miwn sâm! Ond wetyn, ar y ford o'dd wastod potyn bach o "comon soda" ys gwete hi, (bicarb siwr o fod), a fydde pinshad bach o hwn yn ca'l ei roi yn y ddishgled o de ar ôl bwyd i deneuo'r gwa'd medde hi!! Ond cofiwch, o'dd hi'n gant namyn un yn mynd odd 'ma - nath y sâm ddim lot o niwed.

Persli, ie, o'dd hi wastod yn cnoi hwn i buro'r ana'l. Mae e'n gwitho 'fyd, grêt ar ôl byta garlleg! Mae'n depyg, yn ystod y Rhyfel Byd cynta' pan o'dd y swjwrs yn oeri yn y ffosydd ac yn ca'l y cryd, o'n nhw'n rwto olew persli ar eu cyrff i gatw gwres.

Mae e hefyd yn "dueretic", felly'n dda at glefyd y dŵr ac yn puro - berwi'r persli ac yfed y dŵr.

Nawrte, geso i sgwrs fach 'da whannen un bore, a wetws hi wrtho i bod hi ddim yn lico rwpeth, a phersli o'dd hwnnw, felly os welwch chi whain yn y gwely towlwch fwnshed o bersli atyn nhw - Mas Egsodys!

Sgrifennes i englyn bach i eli Man-gu:
Olion o hyd o'r eli----a'i wyrddni
O'i wraidd yn y persli,
Poteli o'i heli hi
Mae'n hawdd i minnau heddi.

O'dd Man-gu yn amal yn ishte ar y cowtsh yn byta ffigysh. Alla i weld hi nawr yn tynnu'r ffigyshen gyta'r unig ddant o'dd 'da hi, a hwnnw yn y canol. Wrth Man-gu geson nhw'r syniad o "central 'eating"! O ok, ok, wi'n gwpod bod whishgers ar honna!! Ma ffigysh yn llesol, ma nhw'n cynnwys potasiwm a fitamin B6, sy'n anodd i'w ga'l mewn bwyd. Yn dda hefyd os ych chi'n trio colli pwyse, achos ma nhw'n uchel mewn ffeibr, ac yn aros yn hir yn y stumog, felly yn eich llanw chi, ac yn ateb yr alwad am felyster. Un o hoff fwydydd Cleopatra, cofiwch.

Ma 'na sôn taw ffigysh gymerws Efa yng ngardd Eden, nace'r afal honedig. Wel gwir ne beido, o'dd y dail yn "*fashion accessory*" y cyfnod! A phan a'th y Frenhines Fictoria i weld cerflun Michelangelo o Dafydd yn yr Amgueddfa Brydeinig fe wnaethpwyd deilen ffigysh o glai i guddio'i ogoniant, rhag embaras, fel ta' hi mor ddiniwed â hynny!!

Peth arall o'n i'n gorffod hôl i Man-gu o'dd pupur cayenne. Ma hwnnw'n gallu rheoli pwyse gwa'd, ynghyd â sinamon a sinsir. Wi hefyd yn cofio Dr Eirwen Gwynn yn gweud dipyn yn ôl bod hanner grawnffrwyth y dydd yn gallu rheoli'r colesterol.

Un cof arall. O'dd defed 'da fi ar y'n llaw pan yn y coleg. Dyma ni'n dwy yn mynd am wâc i waelod ca' cyfacos lle o'dd nant oren, oren o achos yr haearn a'r copor o'r gweithfeydd yng Nglandŵr. 'Rhowch y'ch law yn y dŵr,' medde hi, ac yna llanwodd bot jam â'r dŵr ac ethon ni ag e tsha thre 'da ni. Hwpes i'n llaw yndo fe bob dydd, ac o'dd y "praidd" wedi diflannu. O'dd T Llew Jones yn gweud taw mynd lan i efel y gof o'n nhw'n neud yn ei ardal e, dŵr metal 'to chi'n gweld! Mae sudd dail Crafanc y Frân - Crow's Foot - neu enw arall yn y Gymra'g yw Chwys Mair, hefyd yn gallu ca'l gwared ar ddafad ar gro'n. Perthyn y planhigyn yma i deulu Blodyn y Menyn, ac yn depyg iawn iddo fe, ond ma'r ddau yma yn wenwynig a dim ond yn allanol y dylid eu defnyddio.

Nôl at y sinsir cyn cwpla - peth arall o'dd Man-gu yn cnoi. Os y'ch chi'n mynd ar y llong, cnoiwch ddarn o hwn ucen muned cyn mynd a fyddwch chi'n iawn. Hefyd, i chi sy' falle'n feichiog, darn o hwn ucen muned cyn codi i atal y salwch boreol. "*Reflex action*" yw'r salwch, a ma'r elfennau o gingerols sy mewn sinsir yn rheoli hyn. Dw i'n cnoi darn o "*crystalised ginger*" bob dydd ac yn rhoi sinamon ar ben y coffi. Cofiwch byrnu sinamon organig o Sri Lanca, dyna'r gore, a dim mwy na hanner llond llwy de y dydd.

Dicon am y tro. Un hen ddywetiad: 'Tor dy syched lle y cyrcho'r golchydd ei dŵr' - y ffynnon. Mwy mewn mish - iechyd da!

# Gwylio'r Geiniog



*Gwyliwch y sgamiau*

## Huw Aled Accountants

1. Oherwydd y cloi mawr, rhoddwyd estyniad o 6 mis i'ch MOT os yw dyddiad yr MOT yn gorffen ar neu ar ôl 30 Mawrth 2020.

2. Mae Sky Sports a BT Sport wedi caniatáu i gwsmeriaid naill ai oedi eu tanysgrifiadau neu hawlio credyd, lle mae cwsmeriaid yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

3. Sgamiau newydd i fod yn ymwybodol ohonynt:

a) Y Swyddfa Dreth yn nodi bod ad-daliad treth yn ddyledus oherwydd y Coronafirws, lle mae'r sgamwyr eisiau eich manylion banc.

b) Sefydliad sy'n nodi bod unigolyn wedi'i weld allan o'r tŷ ar 2 achlysur mewn diwrnod ac felly'n agored i ddirwy o £100 - £200 a dylid ei dalu ar unwaith, gyda bygythiadau enbyd.

c) E-bost sy'n ymddangos fel petai wrth Tesco.com yn cynnig talebau siopa am ddim, eto lle mae'r sgamwyr eisiau'ch manylion personol.

**Cwestiynau Huw ac Aled**: A yw'n wir y gall pâr priod adael hyd at £1,000,000 yn ddi-dreth?

Gall unigolyn adael £325,000 yn ddi-dreth a phâr priod £650,000 rhyngddynt. Yn ogystal, mae'r "*residential nil rate band*" wedi'i gynyddu i £175,000 yr un (£350,000 i gwpl) ac mae ar gael pan fydd cartref y teulu yn cael ei adael yn uniongyrchol i blant neu wyrion.

Felly, os gadewir cartref y teulu i blant ac wyrion, mae rhyddhad treth etifeddiaeth posibl o £1,000,000.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

## Menter Caerdydd & Menter Bro Morgannwg



Mae'n amser anodd a gwahanol iawn i ni i gyd, ac rydym ni fel Mentrau Iaith yn awyddus i chwarae ein rhan wrth geisio cefnogi a chynnal ysbryd ein cymunedau.



Gyda'r siom o orfod canslo Tafwyl a Gŵyl Fach y Fro eleni - yn ogystal ag ugeiniau o gynlluniau chwarae - a'r Covid yn ofid i bawb, rydym wedi addasu ein gwaith gan gofleidio technoleg ar-lein er mwyn cynnig cyfleoedd amrywiol i bobl o bob oed i ddefnyddio a chlywed y Gymraeg.

Bellach mae "zwmio" yn prysur sefydlu ei hunan fel term naturiol i ddynodi cyfarfod dros y ffôn neu ar gyfrifiadur, yn union fel y daeth "hwfro" a "beiro" yn ddisgrifiadau ar lafar bob dydd, er bod cwmnïau eraill yn darparu nwyddau tebyg.

Mae staff Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg wedi dod at ei gilydd i ddatblygu llwyth o weithgareddau ar y cyd er mwyn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae'r amserlen wedi prysuro dros yr wythnosau, wrth i'r opsiynau gynyddu, boed yn gystadlaethau dawnsio neu gelf a chrefft i blant, heriau awyr agored, ryseitiau coginio, bore coffi wythnosol i glywed ac ymarfer y Gymraeg i oedolion neu sesiynau ffitrwydd amrywiol.

Mae Efa Huw yn tiwtora clwb ioga i blant er mwyn cynnig amser tawel iddynt ymlacio ac mae cwis wythnosol ar nos Wener sy'n herio gwybodaeth gyffredinol a chynnig cyfle cymdeithasol wrth ddenu dros 30 sgrin 'Zoom' at ei gilydd, pob un o aelwyd wahanol ar draws y ddinas a thu hwnt!


Mae'r sesiynau ukulele yn parhau i ffynnu ar nos Fercher dan arweiniad Mei Gwynedd ac mae clwb drama i blant oed cynradd ar Zoom wedi dechrau ar brynhawn dydd Mercher gyda Siân Elin. Mae'r disgo/cwis ar brynhawn Iau yn hynod boblogaidd ac rydym wedi gorfod ehangu i ail sesiwn er mwyn cynnig cyfle i fwy o blant gael dawnsio, ateb swp o heriau amrywiol a llosgi 'chydig o egni!

Bydd ambell weithdy a gweithgaredd rhithwir newydd yn cael ei gynnig dros yr wythnosau nesaf ac, os hoffech chi rannu syniadau, cyfrannu neu rannu atgofion am Gaerdydd a'r Fro, sicrhewch eich bod yn dilyn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac yn tanysgrifio i'n e@chlysur.

Dolenni ein cyfryngau cymdeithasol:
Menter Caerdydd & Menter Bro Morgannwg
Insta- @menter_bro_morgnnwg | @mentercaerdydd
Facebook- @MIBroMorgannwg | @m.caerdydd
Twitter- @MIBroMorgannwg | @mentercaerdydd

# Byddino pobl, offer ac arbenigedd i daclo COVID-19

Heb i chi fod yn byw ar y lleuad, mae geiriau fel profion, moddion a brechlyn yn gyson wedi taro eich sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hyn yn sgil y galw mawr am allu i wneud mwy o brofion i ddarganfod COVID-19, i ddarganfod cyffuriau newydd i ymdrin â'r firws a chreu brechlyn fydd yn ein gwarchod nawr ac yn y dyfodol. Fel gwyddonwyr ac aelodau staff Prifysgol Caerdydd, rydym yn crafu pen dros y geiriau yma a gofyn "sut fedrwn ni helpu?" Heddiw rydym yn fwy ymwybodol nag arfer o'n rôl ni fel dinasyddion gwyddonol yn y gymdeithas gyfan. Fel arfer, i wireddu'r cyfrifoldeb hwn, o dan fenter **Cenhadaeth Ddinesig** y Brifysgol mae'n bwysig ein bod yn symud ein gwyddoniaeth allan o'r labordy i'r ddinas a thu allan i ffiniau'r ddinas a thrafod ein gwaith gyda'r cyhoedd. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn llwyfan gwych i wneud hyn a thrueni na fydd y Brifwyl yn Nhregaron eleni. Ond, a hithau'n ddim ond Mai 2020, rydym bron â bod yn barod i gludo ein harddangosfa wyddoniaeth i Dregaron 2021!



*Arwyn Jones*

Mae hwn yn sicr yn gyfnod unigryw i ni yn y brifysgol ac yn un sydd wedi gwneud i ni gysidro'n fwy dwys nag arfer ein cenhadaeth ddinesig a'n cyfrifoldebau cymdeithasol. Fel ymateb i argyfwng COVID-19 mae staff y brifysgol wedi gwneud peth ymdrech i ymateb i heriau COVID-19 i helpu'r achos a dyma i chi bigion. Yn wir, dim ond copa'r mynydd iâ yw'r rhain.


Mae profion diagnosis a'r angen am dechnoleg ac arbenigedd i'w cynnal wedi bod, ac yn parhau i fod, yn bwnc llosg. Y llywodraeth yn gosod targedau uchelgeisiol iawn a'r gofyn wedyn i fyddino arbenigedd ac adnoddau i wneud yn siŵr bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn cael eu profi. I helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru fe sefydlwyd byddin o bron i 400 o wyddonwyr y brifysgol (technegwyr, myfyrwyr a staff) mewn labordy yn yr ysgol Fiowyddorau i ddarparu'r tiwbiau a'r adweithyddion angenrheidiol i roi sampl o'r swabiau. Roedd angen rhain i wneud yn siŵr fod y prawf yn gallu darganfod mater geneteg y firws yn effeithiol. Roedd un adweithydd (guanidinium isothiocyanate) yn brin iawn felly bu'n rhaid chwilota yn labordai'r brifysgol a'i gasglu i'r gwirfoddolwyr ei rannu i filoedd o diwbiau. Hyd yn hyn dim ond nifer fechan o'r gwirfoddolwyr yma sydd wedi eu rhoi ar waith ond mae'r nifer yn adlewyrchu'r angerdd i helpu a bod dim prinder os bydd yr angen yn cynyddu. Profiad rhyfedd i mi oedd crwydro'r Ysgol Fferylliaeth yn llywio troli, fel mewn archfarchnad, yn chwilio am eitemau PPE fel menig a masgiau a roddwyd i dîm ymarfer llinell flaen gofal iechyd yr Ysgol Feddygol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae staff yr Ysgol Fferylliaeth hefyd yn helpu mewn fferyllfeydd ledled Cymru gan gynnwys ein myfyrwyr sydd yn cael profiad gwaith annisgwyl ac unigryw cyn iddynt raddio.

Ond beth am y Tamiflu hwnnw yr ydym yn rhoi ein gobeithion arno pan ddaw ffliw draw yn dymhorol i'n poeni; fel $H_1N_1$ yn 2013? Y gwirionedd yw nad oedd, ac nad yw, Tamiflu yn gyffur effeithiol iawn ac yn dda i ddim i ymdrin â COVID-19. Ond mae cyffuriau eraill a ddatblygwyd i arbed afiechydon firysau gwahanol fel HIV wedi amlygu eu hunain yn ystod cyfnod COVID-19. Un yw Remdesivir, gafodd ei ddatblygu'n wreiddiol i drin afiechydon Ebola a Marbug. Yn fwy diweddar, mae wedi dangos actifedd yn erbyn firysau eraill, megis y teulu corona, gan gynnwys COVID-19. Darganfuwyd y dechnoleg sy'n tanseilio'r cyffur hwn yma yn yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol gan dîm y diweddar Athro Chris McGuigan, arloeswr ym maes cemeg meddyginiaethol, a'r gobaith yw y bydd ei ddilynwyr, sydd heddiw yn creu cyffuriau newydd, yn darganfod un i drin COVID-19. Ond am y tro cadwch lygad ar Remdesivir a rhaid i ni ymfalchïo mai cyffur Cymreig yw e.

Ond beth am y brechlyn hwnnw? Prifysgol Rhydychen sydd yn amlygu wedi iddynt ddarganfod un â llond ceg o enw: ChAdOx1 nCoV-19. I greu hwn roedd angen firws arall ac un diniwed i ni gan ei fod dim ond yn heintio tsimpansïaid! Mae gobeithion ac arian y llywodraeth wedi ei fuddsoddi yn hwn ond mae ymchwilwyr eraill ar draws y byd yn y ras i greu brechlyn effeithiol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd a labordy'r Dr Alan Parker yn yr Ysgol Feddygol. Mae o hefyd yn defnyddio firws diniwed sy'n wennol i gludiant darn o sylwedd tebyg i DNA (RNA). Mae'r brechlyn yn galluogi'r rhai sydd wedi ei dderbyn i greu darn o COVID-19 yn y corff. Mae hwn yn ysgogi'r system imiwnedd i ymateb a rhoi amddiffynfa rhag y firws i ni yn y dyfodol.

Dinasyddion ydym oll a theimlad cynnes yw gweld cymaint o'r Brifysgol a thu hwnt yn helpu'r achos.

*Yr Athro Arwyn Tomos Jones*
*Prifysgol Caerdydd*




***Llun: Dr Youcef Mehellou o'r Ysgol Fferylliaeth***

*Mae Blogiau Arwyn ar COVID-19 i'w gweld ar wefan y cylchgrawn Barn: https://barn.cymru/blog*

# CERDYN POST O BARIS

## Lowri Haf Cooke yn holi Ceri Rhys Davies

*Mae Ceri Rhys Davies, sy'n wreiddiol o Benarth, yn Llywydd Cymdeithas Cymry Paris. Mae e'n dysgu Saesneg yn y ddinas wrth ei waith bob dydd, ac yn byw yno gyda Carole ei wraig.*



Wrth i mi ysgrifennu hwn (25ain o Ebrill) mae Paris, a Ffrainc gyfan, yn parhau o dan warchae y Coronafeirws sy'n golygu ein bod ni'n gaeth i'n cartrefi heblaw fod gennym swydd a ystyrir yn hanfodol, neu fod rheswm dilys gennym dros fentro allan megis siopa bwyd neu ymweld â'r meddyg. Afraid dweud nad wyf wedi bod i ganol y ddinas ers tro byd ond dengys lluniau'r teledu strydoedd diffaith a digynnwrf ac mae hyd yn oed y Champs-Élysées yn wag a didraffig.

Wedi anerchiad Emmanuel Macron, yr Arlywydd, ar ddydd Iau y 12fed o Fawrth dw i ddim yn credu i bobl, a minnau yn fwy na neb, ddeall difrifoldeb y sefyllfa oherwydd ar ddydd Sadwrn, y 14eg, cynhaliwyd y farchnad benwythnosol ar y sgwâr ger y fflat a'r lle dan ei sang a neb, hyd y cofiaf i, yn parchu'r cynghorion ynglŷn â gwisgo mygydau a chadw pellter digonol rhwng un a'r llall. Er, roedd bai ar y llywodraeth yn hyn o beth oherwydd ar y Sul (y 15fed) anogwyd y Ffrancwyr i bleidleisio mewn etholiad lleol felly doedd hi fawr o syndod bod yna ddryswch ar y cychwyn am natur y bygythiad.

Mae'n rhyfeddol pa mor rhwydd y mae dyn yn cynefino gydag amgylchiadau a phatrwm newydd. Dw i'n gwneud fy ngorau glas i drin dyddiau'r wythnos fel diwrnodau gwaith cyffredin ond rhaid cyfaddef fy mod i'n llithro oddi ar y llwybr hwn yn rheolaidd. Parthed fy ngwaith, dw i'n gallu dysgu drwy gyfrwng Skype a Zoom, felly i ryw raddau does dim rhyw lawer wedi newid er bod ansawdd y dysgu ychydig yn wahanol i wers draddodiadol. Y nod serch hynny yw cwblhau popeth erbyn 5pm pnawn Gwener er mwyn gallu mwynhau'r penwythnos heb ofalon gwaith. Heblaw am fynd i'r siop fara neu siopa bwyd dw i'n dueddol o aros adref a gan fod ychydig o le gennym tu fas dw i'n llwyddo i wneud peth ymarferion er mwyn ystwytho rhywfaint ar y corff. Gyda'r holl declynnau sydd ar gael erbyn hyn nid yw cyfathrebu gyda'r teulu a ffrindiau yn drafferth; y peryg, os rhywbeth, yw boddi dan swmp negeseuon WhatsApp, tecstos, e-byst....

Echnos ar y newyddion, darlledwyd adroddiad am ŵr a oedd o flaen ei well am i'r heddlu ei ddirwyo chwe gwaith am iddo fentro allan heb reswm dilys. Esboniodd ei gyfreithwraig ei fod yn rhannu llety gyda chwe pherson arall (gan gynnwys plant) a maint y fflat oedd 40m² felly does gen i ddim lle i achwyn am fy amodau personol i. Er bod ambell ddiwrnod yn hirach nag eraill, a dyw syrffed a rhwystredigaeth byth yn bell, rydw i a fy ngwraig Carole yn dod i ben yn iawn. Ceisiaf gadw mewn cof mai dros dro fydd y cyfyngiadau arnom ac fel y byddai fy mam-gu'n f'atgoffa o dro i dro "fe ddaw eto haul ar fryn".

Basai'n rhwyddach rhestru beth dw i ddim yn gweld eu heisiau na'r hyn yr wy'n ei golli ar hyn o bryd: cymudo i'r gwaith yn y métro, prisiau afresymol caffis a thai bwyta, syrcas y byd pêl-droed, anfoneddigrwydd cyffredinol, gwagedd byd y selebs a'r diwydiant sy'n ei borthi, Brexit, deffro ben bore! Gan ymddifrifoli am ennyd: pan ddaw'r cyfan i ben bydd cyfle i ail-ystyried pa swyddi sydd yn wirioneddol anhepgor oherwydd heb ofalwyr yr henoed, nyrsys, y dynion sy'n casglu'n sbwriel, y gwŷr a'r gwragedd wrth y tiliau yn ein harchfarchnadoedd, rheiny sydd yn cludo'r bwyd i'r archfarchnadoedd a'r cant a mil o swyddi "di-nod" a di-ddiolch eraill (ond sydd, er mawr gywilydd, yn talu lleiaf), byddai'n cymdeithas yn yfflon. Basai trafodaeth o'r fath yn llesol yn Ffrainc ac yng Nghymru ac efallai wedyn daw'r haint a rhyw "dda" yn ei sgil.

Fy neges i'w rhannu gyda darllenwyr *Y Dinesydd* yw, cwatwch fewn! A chofiwch, fel y dywedodd Geraint Jarman mewn cyd-destun gwahanol, mae "dyddiau caethiwed yn dirwyn i ben".

---

## PÔS

Dyma bos i chi!
Fe gewch yr ateb yn rhifyn Mehefin.

Saith corrach yn hunan ynysu.
Dau fetr sydd rhyngddynt wrth gysgu.
Ond UN, medde Eira,
Ni chaiff aros yma.
Pa un daflwyd o'na heb oedi?

Anhysbys

# 10 PETH:
# YMARFER DA'R FIDEO-SGWRS

Wel, erbyn hyn mae Coronafirws wedi sicrhau yn blwmp ac yn blaen fod llawer o bobl yn cymryd mantais o weithio a chysylltu ar-lein. Felly, os ydych chi wedi dechrau defnyddio offer ar-lein er mwyn i'ch grŵp gael cwrdd, da iawn chi! Ond ydych chi wedi ystyried y canlynol, tybed?

### *Ymgyfarwyddwch â'ch dyfais*

Byddwch yn ymwybodol o ble ar eich dyfais mae'r camera, meicroffon a seinydd. Mae'n swnio'n amlwg ond: edrychwch ar y camera, gwrandewch ar y seinydd a siaradwch i mewn i'r meicroffon. Byddwch yn synnu faint o bobl sy'n ceisio siarad i'r seinydd yn hytrach na'r meicroffon! Ac mae mwy fyth o bobl yn edrych ar y sgrin trwy'r amser yn hytrach na'r camera.

### *Ydy eich gwefusau'n weladwy?*

Byddwch siŵr o fod wedi dod ar draws problemau clywed pobl eraill dros fideo-sgwrs o dro i dro (YDYCH CHI'N GALLU FY NGHLYWED?!) Fel ym myd pobl drwm eu clyw, mae'n bwysig bod gwefusau pobl yn weladwy er mwyn *gweld* beth maen nhw'n dweud yn ogystal â *chlywed* beth maen nhw'n dweud. Gweler pwyntiau 3 a 4 isod parthed golau a'ch delwedd. Does dim modd gor-ddweud hyn: ydy pobl yn gallu gweld eich gwefusau?

### *O ba gyfeiriad mae'r golau'n dod?*

Ble mae ffynhonnell eich golau? Ffenest? Bwlb trydanol? Ydy'r golau'n disgleirio ar eich wyneb chi? Mae hwn yn bwysig achos:
Os mai y tu ôl ichi mae'r ffynhonnell, byddwch yn ymddangos mewn silwét. Trowch o gwmpas i sicrhau bydd y golau yn syrthio ar eich wyneb. Os nad ydy hyn yn bosib, ceisiwch opsiynau eraill megis cau'r llenni'r tu ôl i chi a chynnau'r goleuadau o'ch blaen chi. Mae eich ffrindiau eisiau gweld eich wyneb, cofiwch!

### *Sut ydych chi'n ymddangos i'r bobl eraill yn y fideo-sgwrs?*

Mae gan y rhan fwyaf o lwyfannau fideo-sgwrs ffenest lle dych chi'n gallu gweld eich delwedd eich hunan. Felly cewch wirio sut rydych yn ymddangos i bawb arall a newid eich crys gyda'r holl fwyd i lawr y ffrynt yn gyntaf! Cymerwch fantais o'r ffenest 'na hefyd i ystyried:

### *Eich cefnlen*

Beth sydd y tu ôl i chi? Dillad isaf yn sychu? Pentwr enfawr o lestri budr? Eich ci yn gwneud ei arferiad digywilydd? Meddyliwch - ydych chi wir eisiau i bawb weld hynny? Symudwch bopeth mas o'r llun a dysgwch sut i ddiffodd eich camera dros dro rhag ofn bydd angen.

### *Sŵn yn y cefndir*

Oes daeargryn yn digwydd yn eich tŷ chi? Dyna sut bydd e'n ymddangos i'r bobl eraill yn y fideo-sgwrs, efallai. Pobl eraill yn sgwrsio? Y teledu/radio/teleffon? Plant yn chwarae? Y peiriant golchi'n troi? Bydd y sŵn yn cael ei drawsyrru dros eich meicroffon a bydd llais y siaradwr yn cael ei foddi i bawb yn y fideo-sgwrs. Byddwch yn ystyriol a chau'r drws er enghraifft – mae'n syndod pa mor sensitif ydy meicroffonau y dyddiau 'ma.
Hefyd dysgwch sut i ddiffodd eich meicroffon dros dro; mae tisiad/peswch/igion/rhech/bytheiriad/rwmbwl y bol yn dod heb lot o rybudd a dych chi ddim eisiau bod yn euog o "or-rannu".

### *Clustffonau*

Mae'n garedig i'ch cymdogion ichi ddefnyddio clustffonau. Fydd dim rhaid iddynt glywed eich busnes chi na busnes eich cyd-sgyrsiwr. Gwnewch yn siŵr bod meicroffon ar eich clustffonau, fel arall fydd dim modd ichi gyfrannu at y sgwrs ar lafar – dim ond gwrando ac edrych arni, a theipio yn y "*Chat*".

### *Ymyriant*

Sgrech uchel o'r ddyfais - poenus i'r clustiau. Cewch ei hosgoi trwy beidio â defnyddio 2 ddyfais i ymuno â'r fideo-sgwrs ar yr un pryd e.e. ffôn clyfar ***A*** chyfrifiadur gyda'i gilydd. Des i ar draws y broblem wrth brofi Zoom ar ddwy ddyfais.

### *Grwpiau mawr (mwy na 6, er enghraifft)*

Mae'n anodd cael sgwrs pan fydd pawb yn ceisio siarad ar yr un pryd. Ac mae hyn yn amhosib ei osgoi pan fydd mwy na thua 6 ohonoch. Fodd bynnag, mae gan rai llwyfannau'r opsiwn i osod ystafelloedd 'torri-mas' lle mae'r gwesteiwr sy'n rheoli'r sesiwn yn gallu gwahanu pobl mewn grwpiau bychain, ymuno â'r ystafelloedd torri-mas ei hunan fesul un, a symud pobl o gwmpas yr ystafelloedd gwahanol. Wedyn mae'r gwesteiwr yn gallu dod â phawb nôl at ei gilydd unwaith eto.
Gan ddibynnu ar y llwyfan, mae gan y gwesteiwr freintiau ychwanegol hefyd e.e. mae e/hi'n gallu tawelu unigolyn neu bawb, recordio'r sesiwn neu daflu pobl allan (pwysig os bydd rhywun diwahoddiad yn mynychu – "Zoombomio").

### *Terfyn ar yr amser*

Cadwch lygad ar yr amser; mae rhai llwyfannau'n cyfyngu'u sesiynau gyda mwy na 2 sgyrsiwr, oni bai eich bod chi'n talu ffi. Gall y sesiwn ddod i ben yn annisgwyl felly, wrth ichi fwynhau eich hunain!
Mae hwn yn arbennig o bwysig os mai chi yw gwesteiwr y grŵp. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn y grŵp yn gwybod pryd bydd diwedd y sesiwn a rhowch opsiynau iddynt mewn da bryd ar gyfer ail-fewngofnodi'n syth eto am ail sesiwn neu am ba bryd bydd y cyfarfod nesaf. Gwnewch hynny ar ddechrau'r sesiwn; mae'n rhy hwyr ar ôl i'r sesiwn ddod i ben neu gyda dim ond 30 eiliad i fynd!

Mae fideos da ar YouTube am sut i ddod yn gyfarwydd â Zoom a llwyfannau eraill a dw i'n eu hargymell.

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau fy erthygl cymaint ag y gwnes i fwynhau ei hysgrifennu. Pob lwc a daliwch ati! Eich gweld chi i gyd yn y seiberofod!

*Rwth Evans*
*Treganna*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Christine James a'r teulu cyfan ar golli mam, mam-gu a hen fam-gu oedd yn annwyl iawn yn eu golwg oll.

**Ar ei beic**

Llongyfarchiadau i Eseta Uhi, sy'n ddisgybl yn Ysgol Hamadrayad, ar godi arian at elusen Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro drwy feicio ar hyd y lôn gefn tu ôl i'w chartref yn Nhrelluest. Llwyddodd i godi tua £800. Da iawn Eseta!

**Damwain**

Dymunwn yn dda i Cai Dafydd ar ôl ei ddamwain feic yn ddiweddar. Gobeithiwn bydd y fraich yn holliach cyn bo hir.

**Diolch am dechnoleg**

Yn ystod y cyfnod cloi diolchwn am y dechnoleg sydd yn ein galluogi i gwrdd â'n gilydd a chadw mewn cysylltiad. Mae oedfa'r bore i'w gweld ar YouTube ac mae ein gweinidog Emyr James newydd ddechrau cyfres o bregethau ar Efengyl Ioan.

Yn ystod sawl oedfa fore Sul mae Wyn James wedi esbonio cynnwys rhai o'n hemynau. Y Sul cyntaf, tynnwyd ein sylw at emyn poblogaidd Eben Fardd, 'O fy Iesu bendigedig', gan ddweud fod yr emyn hwn yn addas ar gyfer y cyfnod cythryblus presennol. Yn y ddau bennill cyntaf ceir delweddau o donnau stormus y môr a daeargrynfeydd tra yn y trydydd pennill mae'r emynydd yn sôn am y profiadau anodd ddaeth i'w ran. Ond er gwaethaf pob profiad anodd tystia mai:

'Pwyso ar Iesu, dyma gryfder
Sydd yn dal y pwysau i gyd'.

Hyderwn mai dyna'n cysur ninnau hefyd yn y cyfnod heriol yma.

Am 5 o'r gloch brynhawn Sul, cynhelir astudiaeth trwy gyfrwng Zoom. Defnyddir Zoom hefyd ar gyfer Cwrdd Gweddi ar nos Fawrth, bore coffi fore Llun a Iau yn ogystal ag ambell gwis a gêm.

**Grŵp Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Un datblygiad newydd yw'r Grŵp Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol ar nos Iau rhwng 8.15 a 9 o'r gloch dan arweiniad Wyn James. Mae hyn eto yn digwydd drwy gyfrwng Zoom. Hyd yn hyn trafodwyd dwy o sonedau Gwenallt, emyn Pedr Fardd, 'Rhyfedd Ras', a rhai o benillion y Ficer Prichard. Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno â'r grŵp drwy e-bostio: gwybodaeth@cwmpawd.org

**Gweithwyr allweddol**

Dymunwn bob gofal dros y gweithwyr allweddol yn yr eglwys.

## EBENESER

**Darlledu ar-lein yn parhau**

Gan fod y sefyllfa bresennol o fethu dod at ein gilydd yn parhau bydd croeso i chi ymuno â ni i addoli mewn oedfa ar-lein bob bore Sul am 10 o'r gloch. Ewch i Ebeneser Caerdydd ar Facebook.

**Llusern Fach**

Yn wythnosol mae'r Llusern Fach wedi bod yn ymddangos gydag ychydig o newyddion i'r aelodau ac ychydig o eiriau i galonogi ein gilydd. Fe'i dosberthir i bawb sydd ar y we trwy gyfrwng e-bost ac fe bostir copi i'r aelodau di-we.

**Ysgol Sul ar Zoom**

Mae rhai o blant yr Ysgol Sul wedi bod yn cyfarfod am 3.00 ar bnawn Sul ar Zoom, ac yn ystod yr wythnos wedi bod yn gwneud crefftwaith gartref. Dyma Loti, Mali a Macsen, Eos ac Olwen yn gwneud bara croyw. Llawer o waith yn TOES! Rhys ac Owen yn gwneud deilen palmwydd.

**Cwrdd gweddi ac Odid**

Rydym yn cynnal cwrdd gweddi yn wythnosol drwy'r cyfrwng Zoom. Mae'n braf gweld ein gilydd, astudio'r gair a gweddïo, heblaw am gynnal ein gilydd mewn cyfnod heriol sydd wedi trawsnewid ein bywydau. Mae Odid, ein hastudiaeth Feiblaidd, yn digwydd bob pythefnos. Roedd 16 wedi ymuno mewn cyfarfod yn ddiweddar.

**Gŵyl Gristnogol Llanw**

Roedd gŵyl Llanw i fod i gael ei chynnal yn Ninbych-y-Pysgod yr wythnos yn dilyn Sul y Pasg ond fel popeth arall, bu rhaid ei gohirio. Er hynny, bu oedfa ar YouTube a chwis bywiog i ddilyn. Rydym yn falch i adrodd fod tîm Ebeneser wedi dod yn gydradd ail yn y cwis.

**Tîm Gofal**

Diolch i'r Tîm Gofal am eu gwaith wythnosol yn cysylltu gyda'r aelodau hŷn i sicrhau eu bod yn iawn.

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaethau**

Er bod yr adeilad ar gau, mae'r Eglwys ar agor! Mae ein gwasanaethau bellach ar Zoom bob bore Sul, gyda dros gant a hanner ym ymuno yn y gwasanaethau. Llwyddiant aruthrol, ac mae'n hynod braf gallu cadw mewn cysylltiad ar amser sy'n heriol i bawb. Croeso i chi hefyd ymweld â'n tudalen bywiog ar Facebook!

**Cynhaliaeth**

Rydym fel Eglwys yn estyn cymorth i aelodau a ffrindiau, yn helpu yn ymarferol ac yn glust i wrando, wrth i nifer o'n haelodau fod yn barod i estyn llaw.

**Cydymdeimlo**

Rydym yn flin iawn o golli Beryl Owen, ac rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'r teulu ar yr adeg anodd hon.



*rhai o blant Ebeneser*

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT, YR EGLWYS NEWYDD

Roedd rhaid dathlu'r Pasg mewn ffordd wahanol iawn eleni. Dim gwasanaethau'r Wythnos Fawr, dim posib dilyn ôl troed yr Iesu i Galfari ar ddydd Gwener y Groglith gyda'n cyfeillion yn y ffydd. Ond erbyn bore Sul y Pasg, fe ddaeth y dechnoleg newydd ag Offeren Sul y Pasg i'n cartrefi o gartref Esgob Emeritws Edwin Regan.

Roedd yr Esgob wedi meistroli Zoom ac wedi anfon gwahoddiad atom i ymuno ag ef – a dyna fendith a braint oedd hynny! Cael ymuno â'n gilydd yng Nghaerdydd a'r Barri, Sir Fôn ac Aberystwyth, Dinbych a Phontyberem – a hyd yn oed Japan! Byddwn yn gallu clywed yr Offeren bob Sul ar Zoom o hyn ymlaen, hyd nes i ddrysau ein heglwysi gael eu hagor unwaith eto.

Ac os nad ydy'r cyfarpar gyda chi i ymuno yn y gwasanaeth am 11 o'r gloch ar fore Sul, mae'r darlleniadau a'r gweddïau ar gyfer Offeren y Sul ar gael ar wefan Y Cylch Catholig, wedi'u paratoi gan y Tad Allan R. Jones.

Erbyn Sul y Pasg Bach, daeth mwy eto i ymuno yn yr Offeren, a'r Tad Allan yn pregethu. Gallwn wneud yn fawr o'r cyfnod hwn i ddyfnhau ein ffydd drwy ddarllen y Beibl, myfyrio a gweddïo, meddai – cyngor doeth a pherthnasol i ni sy'n gaeth ac sy'n gweld eisiau'r holl bethau roeddem yn eu cymryd yn ganiatáol cyn hyn. Roedd hi hyd yn oed yn bosib i ni glywed y Salm wedi ei chanu a Mared hefyd yn canu'r *Victimae paschali* sydd yn rhan annatod o Offeren Suliau'r Pasg.

Diolch o galon i'r Esgob Regan am ei arweiniad a'i ymroddiad i ni, ei braidd o Gymry Catholig drwy Gymru gyfan.

Cyswllt carys@caerdelyn.com

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

"*Mae celfyddyd fawr yn cael ei chreu pan mae'r llaw, y pen a'r galon yn cydweithio.*"

Un o'r dywediadau rheini y digwyddais daro arno'r bore 'ma ar fy ffôn lôn wrth hel meddyliau am gyfraniad i'r *Dinesydd* cyfredol. A dyna daro'r geiriau ar sgrin y cyfrifiadur, dechrau myfyrio am be i ddweud, a dod i *ffwl stop* reit sydyn. Be wyddwn i am "*gelfyddyd*", heb sôn am "*gelfyddyd fawr*", a haerllugrwydd ar fy rhan fyddai credu y gallwn lunio pwt fyddai o ddiddordeb i unrhyw un ar y fath destun.

Camu'n ôl felly, ac awgrymu i mi fy hun hwyrach y byddai'n ddoethach canolbwyntio ar ail gymal y dywediad uchod – "*y llaw, y pen a'r galon yn cydweithio*". A dyna grwydro yn union syth i gysgod y Gofid Mawr – sut ar wyneb daear mae sicrhau *cydweithio* pan mae pawb ohonom wedi ein gorfodi i *ymneilltuo*? Ond rhoswch am eiliad, onid "Ymneilltuwyr" ydym yn draddodiadol yn ôl label ein capeli "Anghydffurfiol"? (Ac oni ddylem o'r herwydd fod yn gysurus â'n sefyllfa bresennol?)

Does gen i ddim chwant mentro'n ormodol i unrhyw ddadl ddiwinyddol, ond ai dyma'r cyfle i ni fentro ar ffordd wahanol o arddel ac ategu ein ffydd? Yn sgil yr haint, mae drysau'n capeli ar gau, mae'r seddi'n wag ac mae'r pwlpud yn fud. Ond mae yna ddyfeisgarwch yn llifo o gartrefi di-rif ar draws ein gwlad, ac mae modd mwyach i'r neges dreiddio i'r mannau mwyaf anghysbell, fel yn yr hysbyseb "Heineken" honno a fyddai'n arfer bod ar ein sgriniau teledu.

Ac mae Bethlehem yn chwarae ei rhan yn y jig-so cymhleth yma gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gadw cwmni i'r aelodau a'r plant yn ystod y meudwyo. Diolch felly am barodrwydd i gynnal Ysgol Sul ar-lein, am baratoi Myfyrdod i'w ddilyn o Sul i Sul, am "Gair bach Bethlehem" wythnosol i rannu newyddion a hel atgofion. Diolch yn ogystal am yr aelodau rheini sy'n cynnig ymgeledd wrth eu gwaith proffesiynol ac fel gwirfoddolwyr yn eu cymdogaeth.

Mi wn i sicrwydd mwyach fod "*y llaw, y pen a'r galon yn cydweithio*" er "*creu celfyddyd fawr (o gariad)*" yn ein plith!

## BETHEL, PENARTH

Daeth ton o dristwch enbyd drosom pan glywsom fod ein chwaer Carys (Puw Williams) wedi marw ar Ebrill 13eg. Er bod ei salwch a'i chystudd hir a gofidus yn hysbys i bawb, nid oedd hynny yn ysgafnhau ein teimlad o golled ddirfawr. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'r merched, Non a Sara, a'u teuluoedd yma yn y De ac yn y Gogledd, ardal fagwraeth Carys.

Mae rhai o'n plith yn cofio'r cyfnod pan ddaeth Meurwyn, gŵr Carys, yn weinidog ar Fethel a hithau'n amlygu ei hynawsedd naturiol a'i sêl gadarn dros y Pethe. Ymhlith yr atgofion daw'r rhai sy'n cofio Drama Nadolig Bethel, athrawon yr Ysgol Sul dan arweiniad eneiniedig Carys. Roedd ei dawn wrth y piano yn ysbrydoledig, hithau'n medru creu cerddoriaeth newydd ar y lleiaf o awgrym o dôn. Pwy all anghofio 'Cenwch y clychau…..' i'r dôn 'When I'm sixty-four'? Ar brydiau byddai Carys, wrth geisio cael y plant i ymroi yn fwy brwdfrydig, yn sefyll ar ei thraed tra'n dal i ganu'r piano, yn gwaeddu, 'Bloeddiwch blantos – Y Meseia Yw'. Mae un atgof yn cynnig 'Cwtsh i bawb sy'n hiraethu amdani'.

Mae eraill ohonom, a ddaeth i Fethel yn ddiweddarach, yn cofio Carys gyda pharch a chariad am gefnogaeth dawel, ddoeth a chadarn. Bu'n gefn i Meurwyn yn ei weinidogaeth a'r ddau yn bugeilio'n ofalus. Yn gymorth amhrisiadwy i lawer mewn cyfyng gyngor; eu hiwmor a'u cwmni'n donic ar achlysuron o ddathlu. Testun edmygedd oedd hynawsedd graslon Carys wedi marwolaeth Meurwyn. Daliodd yn ffyddlon i oedfaon yr eglwys, yn aelod y Cyngor, lle gwelwyd droeon ei rhuddin yn dod i'r amlwg yn ei chyfraniadau doeth heb ysbryd ymwthgar. Bu'n gynrychiolydd ar ran Bethel ar gyrff allanol. Roedd yn barod i roi cyfraniad mewn oedfa a hynny yn dwyn bendith arbennig.

Ein braint ni oll yw ein bod wedi cael ei nabod. Ein dyletswydd yw bod yn debyg iddi.

************************************

Yn y dyddiau blin hyn o fod heb oedfa yn y capel, buom yn mentro ar ddulliau eraill o gynnal ein gilydd: mae'n gweinidog yn cynnal myfyrdod bob bore Sul am ddeg o'r gloch yn fyw ar dudalen Gweplyfr Bethel; dros Yr Wythnos Fawr cafwyd wyth 'oedfa e-bost' gyda dwy 'oedfa' yr un gan bedwar aelod yn yr Ofalaeth; byddwn yn rhannu Meddyliau Mercher, sef, cyfraniadau amrywiol gan unigolion yn yr Ofalaeth.

## TABERNACL, YR AIS

**Gwasanaethau'r Mis**

Mae llawer o blith aelodau'r Tabernacl yn defnyddio gwefan 'Teulu Tab' ar WhatsApp i gadw mewn cysylltiad cyson yn y cyfnod hwn o ymbellhau gorfodol. Rhannwyd yr oedfaon a drefnwyd yn rheolaidd gan Rhys ab Owen a Marc John. Buont wrthi'n trefnu oedfaon bob bore a nos Sul ac yn darlledu ar amserau arferol yr oedfaon. Hefyd siaradodd Marc â'r plant dros y we, gyda'r plant yn cynnig adnodau, darlleniad a gweddi. Rydym mor ddyledus i'r ddau a hefyd i Dafydd Huw am ei gyfraniad arbennig ef ar allweddell y cyfrifiadur ac ar allweddellau'r organ. Gwerthfawrogodd nifer dda y modd i barhau cynnal Cyrddau Gweddi ar nos Iau. Mae'n dda bod cymuned Tab yn parhau yn glos ar WhatsApp a hefyd yn gweithio ar lwyfannau digidol eraill yn y dyddiau anodd hyn. Daeth rhagor o oedfaon ar y we yn ystod y cyfnod gan y Gweinidog ac eraill. Yn ogystal, her a osodwyd i aelodau oedd darllen pennod y dydd o Efengyl Luc i orffen tymor y Pasg.

**Cyngor i'r Garddwyr**

Bu Alwyn Evans yn cynnig arweiniad i'r garddwyr ar y cyfrwng hwn. Anfonwyd cwestiynau iddo dros y mis yn rheolaidd.

**Ron Lindsay**

Sioc oedd clywed am farwolaeth Ron Lindsay ar yr 21ain o Ebrill. Gobeithiwn gynnal oedfa goffa pan fydd hynny'n bosib. Coffa da o gymwynaswr parod, cyfaill agos a dyn teulu o'r gorau un. Roedd yn berson addfwyn a hawddgar ac yn ŵr Duw.

## EGLWYS DEWI SANT

**Argyfwng Covid-19**

Ers diwedd mis Mawrth, bu Eglwys Dewi Sant ar gau. Fe gollwyd y cyfle felly i gynnal gwasanaethau yn yr eglwys yn nhymor pwysicaf y flwyddyn eglwysig – Sul y Mamau, Sul y Dioddefaint, Sul y Blodau, yr Wythnos Fawr, a Sul y Pasg. Serch hynny, fe ddarparwyd gwasanaethau ar ein cyfer gan y Ficer ac fe'u trefnwyd gan Ieuan Jones fel podlediadau sydd wedi galluogi pawb sy'n dymuno gwneud hynny i addoli yn eu cartref. (Gellir cyrchu'r podlediadau o wefan Eglwys Dewi Sant.)

Mae cenadwri meddylgar Dyfrig mewn pregeth neu fyfyrdod wedi bod yn gysur ac yn gymorth wrth i ni wynebu ansicrwydd y cyfnod argyfyngus presennol. Yn ychwanegol at y Ficer, fe gymerir rhan gan Ieuan (a Megan) ar gân a darllenwyr sydd yn darllen y llithoedd. Hyfrydwch arbennig yw cael yr Hwyrol Weddi yn gyflawn, gwasanaeth sydd yn cloi'r Sul ac yn ein paratoi i wynebu wythnos newydd. Mae'r podlediadau hyn wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac fel eglwys yr ydym yn ddyledus iawn i bawb sydd yn gysylltiedig â'u trefnu.

Unwaith y cyhoeddwyd y cyfyngiadau presennol paratowyd Llythyr Bugeiliol gan y Ficer a'r Wardeniaid i egluro'r trefniadau tra pery'r argyfwng. Mae'r Llythyr yn cynnwys enwau unigolion sydd yn gwirfoddoli i gynorthwyo unrhyw un sydd ag angen cymorth oherwydd y cyfyngiadau neu sydd yn teimlo'r angen am sgwrs ar y ffôn. Diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd i fod o wasanaeth ymarferol.

**Darlledlad S4C**

Er bod Eglwys Dewi Sant ar gau i bawb ar hyn o bryd, cawsom gyfle prin i gael golwg ar yr eglwys pan ddarlledwyd gwasanaeth ar S4C fore Sul, 26ain Ebrill dan arweiniad Dyfrig. Yn ein dychymyg gallem weld ein hunain yn ein corau arferol!

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad fel eglwys at John a Dawn King ac Ian ac Andrea Millar (cyn-blwyfolion) ar eu profedigaethau diweddar.

## MINNY STREET

Edrychwn ymlaen yn ystod y mis at allu parhau i 'gydaddoli' yn ein cartrefi drwy gyfrwng taflenni a baratowyd gan ein Gweinidog a bod yn rhan o fyfyrdod yng nghwmni ein gilydd a'n Gweinidog fel teulu.

**Yr Ysgol Sul**

Mewn dyddiau dreng, mae cyswllt WhatsApp wedi bod yn ddull gwych o gadw teulu'r Ysgol Sul ynghyd. Dros y Pasg, buom yn creu a dylunio elfennau pwysig yr Wythnos Fawr. Ar gyfer Sul y Blodau, cafodd amryw hwyl yn creu palmwydd papur. Cafwyd croesau o bob lliw a llun ar gyfer y Groglith – rhai o lestri, tuniau ffa pob, ffrwythau a hyd yn oed bwnis teganau meddal, ymhlith llawer i rai eraill. Erbyn hyn, rydym yn ôl yn dilyn hanes Archarwyr yr Hen Destament. Mae Noa a'i Arch a'i holl anifeiliaid ar y wal yn y festri. Ond ar y we, bydd siacedi brith Joseff ac atebion y cwis.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl am Mrs Megan Roberts (Llandaf); er nad oedd wedi medru mynychu'r oedfaon am nifer o flynyddoedd, roedd wrth ei bodd yn derbyn ymweliadau gan aelodau a chael hanes gweithgareddau'r eglwys. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu ynghyd â'i chyfeillion niferus yn eu colled ar yr adeg anodd sydd ohoni.

## EGLWYS Y CRWYS

Yn y cyfnod anodd yma mae'n flin clywed i aelodau o'r Eglwys fod mewn profedigaethau. Mae'n cydymdeimlad dwysaf â Bryan a Janice Jones yn eu profedigaeth o golli eu mab, Aled, yn frawychus o sydyn. Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

Trist oedd clywed am farwolaeth William Pritchard, aelod a fu'n ffyddlon a hael i'r Eglwys dros y blynyddoedd. Mae'n cydymdeimlad mwyaf gyda'r teulu.

Mae'n ddrwg gennym ddeall am waeledd Thomas, mab bach Jonathan a Julie ac ŵyr Keith a Delyth Shapey. Wedi cyfnod yn Ysbyty Great Ormond mae bellach gartre ac yn parhau i dderbyn triniaeth. Pob dymuniad da i'r teulu.

Bu'r Athro Tegid Wyn Jones yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Llandochau. Da deall ei fod yn gwella a phob dymuniad da iddo.

Mae Zoom wedi dod yn gyfarwydd iawn i aelodau'r Crwys. Diolch i Cerian Angharad am ei harweiniad a'i hamynedd i addysgu rhai ohonom. Mae cyfarfodydd yr Ysgol Sul wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda nifer fawr o blant yn dod at ei gilydd i wneud amrywiol weithgareddau.

Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn, o dan nawdd y Gymdeithas, fore Gwener y Groglith o dan arweiniad y Parch Lona Roberts. Diolch o galon i Lona am ei chyfraniad ac i bawb a gymerodd ran.

Mae nifer o aelodau yn cael Coffi ar Gamera bob bore Mawrth ac Iau ac mae'n braf gweld wynebau a chael cyfle i sgwrsio. Os yw drws y capel ar glo, yn sicr mae cymdeithas yr Eglwys yn parhau yn agored.

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Er gwaethaf y tywydd garw, y glaw a'r llifogydd, llwyddodd Dr Sara Elin Roberts i deithio o'i chartref yn Sir Fôn i Gaerdydd ar gyfer y cyfarfod o'r Cylch Cinio a gynhaliwyd nos Lun, 2 Mawrth yng Ngwesty'r *New House*. Pwnc ei haraith ar ôl cinio oedd hen gyfreithiau brodorol Cymru a'r llawysgrifau, y maes a enillodd iddi Wobr David Yale y Gymdeithas Selden yn 2007 gyda'i llyfr *The Legal Triads of Medieval Wales*.

Esboniodd Dr Roberts mai ychydig o dystiolaeth sydd yn bodoli i gysylltu'r cyfreithiau â'r brenin Hywel ap Cadell, er adnabuwyd y cyfreithiau fel Cyfraith Hywel. Ar y llaw arall, dywedodd, mae'n eglur bod y cyfreithiau, gyda'r iaith Gymraeg, wedi bod yn elfen hanfodol o hunaniaeth Cymry'r Canol Oesoedd, ac yn enwedig yn y Mers, hyd at Ddeddfau Uno yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn wahanol i nifer o lawysgrifau cyfreithiol yr oes, roedd y llyfrau cyfraith yng Nghymru yn cael eu hysgrifennu yn yr iaith frodorol, ac yn gyfraith y werin (*Volksrecht*) nid cyfraith y Brenin (*Kaiserrecht*).

Ynglŷn â chynnwys y gyfraith, nododd Dr Roberts, ymhlith pethau eraill, fod lladrad yn cael ei ystyried yn waeth na llofruddiaeth (galanas), gyda'r ail yn fater o iawndal nid o gosb. Hefyd, roedd rhai cysyniadau, fel anghyfarch - cymryd eiddo rhywun arall heb ganiatâd - yn rhagweld trosedd *taking without consent* cyfraith Lloegr yr ugeinfed ganrif. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y llyfrau yn rhai bychan er mwyn iddynt ffitio ym mhoced y barnwr wrth iddo deithio o gwmpas y genedl.

Ar ôl gwrando'n astud ar ei hanerchiad clir a dysgedig, cytunodd pawb fod ei chyfraniad i'r noson wedi bod yn swynol.


Er siom i ni i gyd, oherwydd yr argyfwng meddygol ar hyn o bryd ynglŷn â'r Coronafirws, NI FYDD Y CYLCH YN CYFARFOD YM MIS MAI. Mawr obeithiwn y bydd y sefyllfa wedi gwella erbyn yr Hydref.

---

# Yr Urdd yn agor y drysau i Eisteddfod T!

"Caewch y drysau yn y cefn, y gegin a'r lolfa, diffoddwch y peiriant torri gwair a sychu gwallt a rhowch bob chwarae teg i'r cystadleuydd nesa - mae **Eisteddfod T** ar fin dechrau..."

Ydy, mae popeth wedi newid eleni. Yn dilyn y siom o orfod gohirio Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 tan 2021, cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bod am gynnal Eisteddfod arbennig, wahanol eleni, sef **Eisteddfod T**. Bydd yn ddathliad bywiog a byrlymus o holl ddoniau plant ac ieuenctid Cymru, ar lwyfan ychydig yn wahanol i'r un arferol. Bydd y cystadleuwyr yn cystadlu yn ddigidol, trwy uwchlwytho fideos, clipiau a lluniau o berfformiadau a chynnyrch, a chaiff y rowndiau terfynol eu darlledu mewn rhaglenni arbennig ar S4C, ar wefan S4C ac ar BBC Radio Cymru. Cynhyrchir yr arlwy i S4C gan AVANTI.




Bydd **Eisteddfod T** (sy'n chwarae ar y geiriau ti a tŷ) i'w gweld a chlywed ar ystod o raglenni a phlatfformau yn ystod yr wythnos yn cychwyn Mai 25, sef yr wythnos pryd roedd yr Eisteddfod ei hun i fod i gael ei chynnal.

Mae'r rhestr testunau a chyfarwyddiadau sut i gystadlu i'w gweld ar wefan www.S4C.cymru/urdd, sydd nawr ar agor i gystadleuwyr. Yma hefyd mae cyfeiliant, gosodiadau, tips ffilmio a recordio a phopeth sydd ei angen i gystadlu. Yn ogystal â chystadlaethau traddodiadol fel cerdd dant a chorau, mae cystadlaethau eraill mwy anffurfiol – dynwared, lip-sync a chystadlaethau i'r teulu i gyd... a hyd yn oed anifeiliaid anwes! Dyddiad cau'r cystadlu yw **Mai 11** am hanner dydd.

"Roedd yr Urdd yn benderfynol o gael Eisteddfod mewn rhyw ffurf a darparu cyfle i blant a phobl ifanc," meddai Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Siân Eirian. "Yn yr un modd, roedd ein partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - hefyd yn awyddus i gynnal darpariaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd sydd wedi arfer ag wythnos o arlwy eisteddfodol ddiwedd Mai."

Meddai Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys S4C: "Ry'n ni'n falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun arloesol hwn gyda'r Urdd... yn sicr mae'n mynd i fod yn ddigwyddiad i'w gofio!"

Dywedodd Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru: "A ninnau mewn cyfnod anodd i bawb, gan gynnwys ein pobl ifanc, mae'n braf iawn cael cydweithio efo'r Urdd i ddod â hwyl yr ŵyl newydd a gwahanol hon i wrandawyr BBC Radio Cymru. Rydyn ni'n edrych 'mlaen yn fawr ac yn falch o gael y cyfle hwn i geisio codi calonnau'r genedl."

Gyda thestunau Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 wedi eu rhewi tan y flwyddyn nesaf, mae holl destunau **Eisteddfod T** yn newydd, a'r mwyafrif yn hunanddewisiad. Bydd **Eisteddfod T** hefyd yn cynnig prif wobrau llenyddol, cerdd, drama, celf ac i ddysgwyr yn ystod yr wythnos.

Twitter: @eisteddfodurdd
Facebook: @eisteddfodurdd
Instagram: @urddgobaithcymru
TikTok: @urddgobaithcymru
#EisteddfodT

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Mae Zoom yn gyfarwydd i ni i gyd bellach."*

## Gwilym Dafydd



**Teyrnged i Brian Winstone**

Bu farw Brian ar 11 Ebrill, ar ôl salwch byr. I'w deulu, roedd e'n ŵr, tad, tad-cu ac yn hen dad-cu annwyl a chariadus.

I ni, dysgwyr Cymraeg yng Ngogledd Caerdydd, roedd e'n ddyn hyfryd, caredig, llawn hiwmor a thipyn bach o gymeriad. Fel llawer o bobl, roedd e wedi penderfynu dechrau dysgu Cymraeg ar ôl iddo fe ymddeol ac roedd e mor frwdfrydig am yr iaith Gymraeg. Roedd e'n aelod ffyddlon iawn o grŵp yr Awr Hapus yn y Village Hotel ar fore Llun, dysgwr awyddus yn y dosbarth Cymraeg yng Nghanolfan Ararat ar nos Iau, ac yn wyneb cyson yn y bore coffi i ddysgwyr yng Nghanolfan Ararat ar fore Gwener.

Roedd e wrth ei fodd pan ddechreuodd y plant ifanc yn y teulu fynychu ysgolion Cymraeg. Roedd e mor falch ohonyn nhw, heb ymffrostio, ac roedd hi'n bleser i'w glywed e'n siarad amdanyn nhw a dangos lluniau ar ei ffôn symudol.

Mae Brian wedi bod yn ffrind da i lawer ohonon ni a byddwn ni i gyd yn gweld ei eisiau.

*Ian a Jan Cox*

Diolch yn fawr Ian a Jan. Bydd pobl Yr Awr Hapus yn cofio'n glir arwyddocâd 11 o'r gloch yn y Clonc. Doedd Brian ddim yn yfed te neu goffi fel y mwyafrif. Ian fel arfer oedd yn mynd i'r bar i brynu hanner peint o gwrw iddo, neu yn absenoldeb Ian, Eirian neu Gwilym! Parthed *Y Dinesydd,* roedd Brian gyda'r cyntaf i brynu copi misol ac os oedd ei wyrion ynddo roedd weithiau yn prynu dau copi a hyd yn oed tri chopi ar un achlysur! Medraf ei weld nawr yn Ararat ar fore Gwener, weithiau yng nghanol dwsin o wragedd – Brian oedd yr unig ddyn yn mynychu Clonc Ararat! Yn wir, roedd Brian yn gymeriad a bydd bwlch mawr ar ei ôl mewn sawl cylch.



*Brian Winstone yw'r trydydd ar ochr dde y llun.*

**Clonc ar Zoom**

Profiad rhyfeddol ar y dechrau oedd sylwi ar locdown llawn yn Gwesty Pentref, Coryton, a chyfrif dau neu dri car yn y maes parcio eang wrth fynd allan am dro i Fferm y Fforest neu Gastell Coch. Ond ers dechrau mis Ebrill mae'r Awr Hapus yn dal i gyfarfod ar fore Llun am ddeg o'r gloch tan tua 10.40. Diolch i Ruth sy'n gaeth yn Tenerife am ein gwahodd i Glonc Zoom. Hyd yn hyn, cawson ni gwmni Ruth a Rwth, Ian a Jan, Mike, John, Mike a Jan Creigiau, Rhys a Caroline ac Eirian.

Clonc arall sy'n dal yn fyw ac yn iach amser cinio ddydd Llun a Gwener yw Clonc Jams Hywel. Rydyn ni yn ddiolchgar i Sheridon o'r Brifysgol sy'n anfon gwahoddiadau i ymuno gyda hwn. Yno rydyn ni wedi cael cwmni Cathy, Rwth, Sharon, Colin, Rachel, y ddwy Janet, Jackie, Deiniol yn Aberplym, Joe, Alan, Sean, Angela, Martin, Alice, Eszter, Eirian a Terry. Efallai bod eraill nad ydw i wedi sylwi arnynt!

Rydyn ni'n cydymdeimlo gyda Cathy 'Chicago' oherwydd bu farw mam Cathy yn Chicago a bu Cathy allan yno am gyfnod yn ddiweddar.

Clywaf sôn am sawl Clonc arall, dosbarthiadau ac ati sy'n cyfarfod ar Zoom. Basai'n braf derbyn gair oddi wrthych. Peidiwch â bod yn swil! Beth am anfon ychydig o'r hanes ymlaen at eirianagwilym@gmail.com ar gyfer rhifyn mis Mehefin? Bydd rhifyn Mehefin fel rhifyn Mai yn ymddangos ar wefan dinesydd.cymru a Bro360, felly bydd pobl ar draws y byd yn medru darllen eich hanes!

**Amser Jôc gyda Huw James**

Roedd Dai bach o Dregaron yn gweddïo ac yn cwyno fel arfer.

"Ond Duw bach, beth wyt ti'n gwneud? Dw i wedi bod yma ers wythnosau yn gweddïo am ennill ychydig bach ar y loteri. A beth sy'n digwydd? Dim byd."

"Wel Dai," atebodd Duw, "mae hi'n anodd, hyd yn oed i fi sy'n Dduw hollalluog. Rhaid i ti fy helpu i. Dere hanner ffordd. Er mwyn y nefoedd, Dai. Pryna docyn!"

**Gair gan Isobel Carter am Lyfrau**


Mae James Emery, Llyfrgellydd Ysgol Uwchradd Dwyrain Caerdydd, yn gofyn am gyfraniadau o lyfrau y gellir eu gadael ar drothwy ei ddrws yn 30 Stryd Lewis, Glanyrafon. (Os ydych yn byw yn lleol.)

Mae'r ysgol yn bwriadu danfon y llyfrau at eu plant a phobl ifanc sy'n hunan-ynysu tra bod y llyfrgell ar gau. Bydd yr ysgol yn falch os gellir cyfrannu llyfrau i blant rhwng 9-15 oed, llyfrau awduron fel David Walliams, Malorie Blackman neu Roald Dahl. Mae comics hefyd yn werthfawr.

Mae rhai pobl wedi bod yn gadael llyfrau y tu allan i'w cartrefi fel gall eraill gymryd beth hoffent. Mae'n debyg bod nifer o deuluoedd o bob oedran yn gwerthfawrogi cael hyd i lyfrau y dyddiau hyn, yn enwedig os nad oes ganddynt gysylltiad â'r Rhyngrwyd.

**Rhif: 202**

A
D I N E S
R



## Ar Draws

1. Lle da i beri dirnadaeth (4)
3. 'Yr Iawn a ----- ----- y groes
   Yw sylfaen f'enaid gwan' (WJ) (6,2)
8. Treulio ennyd mewn stori gyfoes (4)
9. Dolur tawel bach y ddafad (4)
10. Dafydd bach (3)
12. Addoliad cyhoeddus mab i fab y gweision (12)
14. Mynych wasgaru a chynyddu (6)
15. Bu e' Dai yn llafurio mewn sawl parlwr godro (6)
18. Cyfeirio'r meddwl at greu balcon i Towyn (12)
21. Cael braw ar ddechrau ocsiwn fawr Nerys (3)
22. Croten mewn tymer chwerw (4)
23. Tenau ond y mwyaf yn Lloegr(4)
24. Goresgyn sboncio fel sgerbwd (8)
25. Canu allan o diwn am ffrwyth y gollen efallai (4)

## I Lawr

1. 'Ac yntau fry yn ----- -----,
   A chysgod angau dros y cae' (IDH) (4,4)
2. Torri afal i ni a wna'r creadur ………. (7)
4. ……… a chefnogaf y mwyaf caled (6)
5. 'Tu ôl i'r felin draw ar y bryn
   Mae cae o ----- -----' (WNW) (5,5)
6. Gwaith iâr yw dod n'ôl (5)
7. Grawn yn codi o wersi erchyll (4)
11. 'Pa dafod all dewi am hyn?
    ----- ----- ----- galed na thodd?' (TL)(2,5,3)
13. 'O dan y môr ----- -----
    Mae llawer dinas dlos' (JJW) (1'1,6)
16. Saint da yn canu nes diasbedain (7)
17. Arbed rhag sbio ar anhrefn (6)
19. Gwasgu'r anllythrennog i'w calonogi (5)
20. 'Canaf yn y -----.
    Am dy ofal cu' (WBD) (4)

**Enillydd Croesair Rhif 200**

**Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 200**

**Ar Draws:** 1. Duw yn gwisgo 8. Wyr 9. Yr aswy law 10. Thuser 12. Gellygen 14. Yn oedi 16. Sinema 18. Treiddio 19. Diddig 20. Anweledig 21. Bwa 22 Bradfwriadu

**I Lawr:** 2. Uthr 3. Y llyfr 4. Gwasgu 5. Golygfeydd 6. Gwrthdystiad 7 Gwynt a'r glaw 11. Swolegwyr 13. Llai 15. Dydd 17. Bochdew 19. Digri 21 Bâd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mehefin, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

**Diwrnod rhif 35 Dan Glo o'n Cartref yn Tenerife, 17 Ebrill 2020**

Mae'n ymddangos bod y firws ar duedd i lawr gyda 1,282 o achosion a 74 o farwolaethau hyd yma. Felly mae'n ymddangos y gallai cloi i lawr hwyluso'r wythnos nesaf. Mae rhywfaint o waith adeiladu a gwaith brys wedi cael ei ganiatáu ers dydd Mawrth 14 Ebrill, gyda phellter cymdeithasol priodol. Er enghraifft, mae'r gwaith wedi ailgychwyn ar lwybr arfordirol lleol. Ond i ni a'r boblogaeth leol, rydym o dan yr un cyfyngiadau llym. Mae'r Guardia Civil ar y strydoedd yn sicrhau cydymffurfiad! Ni allwn fynd allan am dro dim ond un ar y tro, yn gyflym i'r siop fwyd agosaf neu at y fferyllydd. Nid oes yr un ohonom sy'n aros yn Los Gigantes yn disgwyl dychwelyd i'r DU tan fis Gorffennaf neu Awst? Ond pwy a ŵyr pryd? Gyda thwristiaeth a'r meysydd awyr wedi cau a chyda hediadau yn dychwelyd i Ewrop unwaith y dydd, trwy Madrid, rydym yn teimlo'n fwy diogel yma nes i'r sefyllfa setlo yng Nghymru. Uchafbwynt y dydd yw 7pm pan fydd cerddoriaeth yn chwarae gan uchelseinyddion ar draws y dyffryn, i'r rhai sydd ar ôl yn y pentref fynd allan i'w patios a'u balconïau i glapio, dawnsio a chwifio. Mae'n codi calon! Mae Zoom wedi bod yn offeryn anhygoel i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau yn y DU, Awstralia a'r Swistir. Ein neges o'r heulwen yn Tenerife yw i chi gadw'n ddiogel, yn iach a golchi'ch dwylo!



*Ruth a Rob*

*Ruth Vining Smith*

*Diolch i bob un ohonoch chi a atebodd yr her yn rhifyn Ebrill i fynd ati i rannu eich profiadau neu argraffiadau yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn. Daeth nifer fawr o gyfraniadau i law, yn gerddi ac yn ddarnau rhyddiaith. Mae'n amlwg bod yr awen yn llifo!*

*Dyma ddarn ysgafn gan Alwyn Llwyd sy'n olrhain taith dau deulu mewn VW Camper o Gymru i Gatalwnia yn ystod y 1960au, yn y dyddiau dibryder hynny cyn bod sôn am ofid y Covid-19 a'r angen i aros gartref.*

# O Fethesda i Fadalona

Mae'r ysfa i grwydro'n amrywio o unigolyn i unigolyn. Credaf 'mod i wedi etifeddu llond trol ohoni. Roedd fy nhad hefyd yn un go arw am hel ei draed. Fe aeth â ni fel teulu ledled ynysoedd Prydain rhwng 1956 a 1966, gan aros mewn pebyll neu garafanau. Fe wnaeth o a Mam hyd yn oed aros yn eu carafán ym Mhenrhyn Gŵyr pan oeddwn i ar ymweliad byr â Charchar Abertawe yn 1970. Cyn mynd ar deithiau, roedd rhaid paratoi'n drylwyr. Roedd Dad ac Wncl Gron drws nesaf am y gorau i sicrhau fod pob darn symudol o'u ceir yn gweithio'n iawn a hynny am rai wythnosau cyn mentro. Heb garantî wrth gwrs o beidio â thorri lawr cyn Llyn Ogwen.

Er bod gen i atgofion o'r holl wyliau yma, mae 'na un daith sy'n sefyll allan. Y daith honno oedd ein hunig daith dramor a'n taith olaf fel teulu. Fe adawodd argraff fawr arna i ac mae elfennau o'r antur yna'n aros yn glir yn y cof hyd heddiw, dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach.

Roedd fy nhad a'i ffrind Eric wedi prynu fan VW newydd wen, "D Reg", rai misoedd cyn y daith ac fe aethpwyd ati i'w throsglwyddo'n garafanét, yn gwsgfan, fel petai. Erbyn heddiw wrth gwrs mae hen faniau VW yn bethau trendi iawn gyda chysylltiad agos â chyfnod yr hipis. Ond nid felly yr oedd hi yn 1966, cyn cyfnod y "*flower power*". Dw i ddim yn siŵr pa mor foethus oedd yr hen fan ond dw i'n cofio mynd gyda Mam, Eirwen (gwraig Eric), Sheila (eu merch) a'm brawd Tudur, yn fy hipsters newydd, ar ymweliad ynddi â Sir Fôn. Pwrpas y daith fach honno oedd dosbarthu eogiaid, oedd wedi eu cuddio dan y seti cefn, i wahanol westai ar yr ynys.

Roedd gen i un gofid o orfod gadael Bethesda am dair wythnos a hynny oherwydd 'mod i'n teimlo fod gen i well gobaith datblygu perthynas agosach gyda merch o'r ardal pe bawn yn aros. Wedi i oglau'r pysgod hir ddiflannu a hithau tua chanol mis Awst, roedd yn amser cychwyn ar y daith fawr dramor lawr y Lôn Bost. Roedd y fan yn orlawn. Ynddi roedd y saith ohonom, pabell, offer campio, dillad a llwyth o duniau bîns.

Amcangyfrifwyd fod y siwrne o 1,300 milltir am gymryd pedwar diwrnod. Diwrnod i gyrraedd Dyfnaint a thri diwrnod o Calais i ben y daith yn Badalona (tref glan môr, ger Barcelona). Doedd 'na ddim rhwydwaith eang o "*autoroutes*" yn Ffrainc a bu'n rhaid gyrru ar y "*routes nationales*" rhan amlaf. Profiad erchyll oedd hynny i'r un oedd yn eistedd ar bwys y gyrrwr ac yn gyfrifol am roi'r ocê pan oedd yn saff i basio. Dw i'n dal i gael hunllefau am y profiad.

Ar ôl dwy flynedd, dan arweinyddiaeth aflwyddiannus Mr "Larry" Owen, fi oedd yn gyfrifol am siarad Ffrangeg. Y gair a ddefnyddiwyd gennyf amlaf oedd "*plein*" pan oeddem yn llenwi'r tanc gyda disel, neu "*gasoil*". Roedd y siwrne trwy Ffrainc yn agoriad llygad. Roedd popeth yn wahanol, newydd a chyffrous. Heibio Paris, lawr trwy Orléans, Clermont-Ferrand, Toulouse a Perpignan - enwau hudolus. Y tywydd yn gwella bob dydd a'r antur yn datblygu.

O Perpignan roedd yn rhaid croesi'r Pyrenees cyn cyrraedd Sbaen. Troellog, serth ac anhygoel o hardd oedd y siwrne honno. Pentrefi bychain prydferth wedi eu lleoli rhwng creigiau anferth. Bu'n rhaid aros noson mewn gwersyll yn y mynyddoedd. Erbyn i ni fynd ati i osod y babell roedd y gwynt wedi codi i fod yn gorwynt cryf. Cyn bo hir nid yn unig bu i'r babell bron â hedfan i ffwrdd ond fe rwygwyd y cynfas yn deilchion. Doedd dim amdani ond i ni'r plant a'r ddwy fam gysgu yn y VW a dad ac Eric druan allan trwy'r nos yn cysgodi gorau gallent o'r gwynt a'r glaw.

Drannoeth fe aethom lawr i Sbaen a heibio Figueras, Cadaqués (pentref a wnaeth Salvador Dali yn enwog), Roses a dilyn y Costa Brava i Badalona. Siom enbyd oedd y maes campio yn Badalona. Darn o dir hir o dan do o wellt gyda phebyll ar y naill ochr i'r ffordd heb ddim golygfeydd o gwbl. Fe aeth mam ac Eirwen ati'n syth i wnïo cynfas y babell ac fe aeth Tud a fi lawr i lan y môr. Dau beth sy'n sefyll allan am y traeth yma. Yn gyntaf cael gwahoddiad clên i ymuno mewn gêm bêl-droed gan fachgen croenddu. Yr ail oedd cael chwip din gan fy nhad am ddweud 'mod i wedi gweld "uffern" o don.

Yn ystod ein hymweliad â dinas hyfryd Barcelona bu imi flasu olif a gwin gwyn am y tro cyntaf (ond nid am y tro olaf). Wrth i ni gerdded strydoedd prysur y ddinas a mynd heibio i westy crand bu i ryw Americanes ofyn o ba le roeddem ni'n dod. Atebwyd mai pobl Besda oeddem ni. "Well how lovely," meddai hithau, "mae gennym ffrindiau yn dod o Maryland hefyd". Roedd rhaid i dad esbonio mai ym Methesda, Sir Gaernarfon oedd ein cartref ni ac nid ym Methesda, Maryland.

Ar ôl wythnos, roedd yn amser troi trwyn y fan yn ôl tua'r gogledd a ffarwelio â Badalona a Sbaen. Roedd anrhegion Nain o gastanetau a tharw ffyrnig wedi eu pacio'n ofalus a'r tuniau bîns bron â gorffen. Er yn falch o gyrraedd adref ar ôl yr antur mawr, cefais siom i ddarganfod fod fy ngofidiau am adael y ferch wedi eu gwireddu. Roedd hithau wedi symud ymlaen hefyd a doedd dim ond dychwelyd i'r ysgol a thymor yr hydref o'm blaen.

---

Dyma rai cerddi o ddosbarthiadau cynganeddu Aron Pritchard ac Emyr Davies.

**Barribados**

*(y munud y daeth yr haul allan ar 21ain o Fawrth 2020, heidiodd cannoedd o ymwelwyr i Ynys y Barri er bod y pla bellach ar led)*

Y pla ddoe i'n plwy' a ddaeth – ar garlam
I'r gorlan, ysywaeth,
Ond breib i'n treib ydyw traeth
I'n denu â'i hedoniaeth.

*Emlyn Williams*

**Haint**

Anweledig yw aelodau – yr haint
A red hyd y parthau,
Yn unigrwydd eu dagrau
Broydd braf ŷnt brudd a brau.

*Emlyn Williams*

Yn fach dan bla afiechyd – yn ferw
O firws yr hollfyd,
Ein hunllef yw y clefyd,
Y straen sy'n dychryn pob stryd.

*Alun Tobias*

**Capten Tom**

Un Tom yn helpu'r Timau – a'n wrol,
fe'n heriodd â'i gamau
pwyllog, i roi'n ceiniogau'n
gymrawd a brawd mewn byd brau.

**Gweithwyr y GIG**

Eu gwên i'r hen yn eu haint – yn ceisio
rhoi cysur i gymaint;
ym monllef dioddefaint,
bythol fwyn fydd swyn y Saint.

**Talfan**
*(Cartref fy hen fam-gu a thad-cu)*

Bellach adfail heb allwedd – ar odre
rhaeadrau o dirwedd,
y muriau'n atsain mawredd
a'r byw deimla oerni'r bedd.

*Mererid Jenkins*



**Cwestiwn**

Beth yw gwerth Byd Natur nawr?
Beth yw gwerth gweld gwên y Wawr?
Beth yw gwerth y lafant porffor?
Beth yw gwerth y blodau'n agor?
Beth yw gwerth gwenynen fach
yn roi neithdar yn ei sach?
Beth yw gwerth morgrugyn bishi
sy'n tynnu'n sylw ato heddi?
Beth yw gwerth y trydar fry
cerddorfa'r coed a'i symffoni?
Beth yw gwerth y ddeilen werdd
yn ei chanol mae byd cerdd?
Beth yw gwerth rhyw gyfnod tawel
anadl ddofn yng ngheg yr awel?
Beth yw gwerth y pili pala
ar y wal yn siglo'n smala?
Beth yw gwerth holl lesni'r clychau
sydd yn tincial yn y cloddiau?
Beth yw gwerth yr amrant dlos
Dros lygad lleuad yn y nos?
Beth yw gwerth y sêr yn t'wynnu
Cyn y wawr ddaw eto fory?
Beth YW gwerth y rhain i gyd?
Ateb? Ma' nhw werth y byd.

*Hannah Roberts*

**Dominic Cummings**

Fe ddaw y gwir er anwiredd y lleidr
twyllodrus. Bydd camwedd
a bai i'w weld lond y bedd
ym mynwent dorf-imiwnedd.

*John Manuel*

**Rhybudd yr Adar Trydar**
*(Yr hwn sydd â chlustiau i wrando, gwrandawed, Luc 8:8)*

Fe drïoch chi drydar yn ein lle,
dwgyd ein cân heb ganiatâd
a'i chloi mewn tipyn teclyn
a boddi ein byd.

Nawr,
a Natur wedi danto,
a'i neges yn glir,
ein trydar ni
sy'n treiddio
trwy'r greadigaeth.

Côr y coed Ceirios,
aria'r coed Euryn,
unawd yn yr Onnen,
ein opera ni yn Eprill.

Nawr,
o foelyd clust
ac aros,
GWRANDEWCH!!

*Hannah Roberts*

**Ofn**

Daw'r pryderon creulonaf
i hawlio'n tir ar lan Taf,
dinas wag, fu dan ei sang,
yn dawel, yn fyd-eang,
aeth ei siopau'n lloriau llwm
o barlys heb eu bwrlwm,
yn bur noeth, fel bariau'r nos
a'i thyrau'n creithio aros,

ac i wagle'r bore bach
daw ofn yr haenau dyfnach,
ofn y llwch ar bafin llwyd
a'r hewl tu hwnt i'r aelwyd,
ofn niwl o foleciwlau'n
bwrw haint i'r lonydd brau'n
ara' deg drwy'r oriau du,
ofn feirws, ofn yfory.

*Aron Pritchard*

*(Ymddangosodd cywydd Aron Pritchard 'Ofn' yn rhifyn Gwanwyn 2020 o Barddas. Diolch yn fawr i Barddas am ganiatâd i'w gyhoeddi yma.)*

# CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD

## Adroddiad Diwedd Tymor

Wel, sut yn y byd mae cychwyn adroddiad ar adeg fel hyn? Dim ots pa mor bwysig yw rygbi i ni, mae'r gêm yn cael ei rhoi mewn cyd-destun ehangach gan y feirws didrugaredd hwn. Yr unig ffordd o ddechrau'r neges yw trwy obeithio eich bod chi i gyd, a'ch teuluoedd, yn cadw'n iach yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn ail, wrth gofio'r berthynas falch sydd wedi bod rhwng y Clwb a meddygon yr ardal dros y blynyddoedd, mae'n gyfle i estyn diolch i'r rhai hynny sydd ar flaen y gad yn gofalu am y cleifion.

Byddwch wedi clywed, mae'n siŵr, bod Undeb Rygbi Cymru wedi dod â'r tymor i ben ganol mis Mawrth, gyda'r canlyniad na fydd dyrchafiad i unrhyw glwb eleni. Felly bydd y Clwb yn parhau i fod yn Adran 3(a) Dwyrain Canolig y tymor nesaf. Rhyddhad? Wel, yn bersonol, ro'n i wedi sylweddoli bod 5 o'r gemau oedd yn dal i'w chwarae yn digwydd bod yn erbyn timoedd ro'n ni wedi eu curo'r tro dwetha i ni eu gwrthwynebu, ond efallai 'mod i 'chydig bach yn optimistaidd! Heb os, roedd terfyn cynnar y tymor yn golygu lot llai o gnoi ewinedd!

Yn absenoldeb adroddiadau gemau, a'r clipiau sy'n cael eu hychwanegu i'r adroddiadau hynny, hoffwn dynnu eich sylw at ddwy eitem sy'n nodi dwy garreg filltir yn hanes y Clwb.

Yn gyntaf, crynodeb gan Lyn Jones a Leighton Hughes o hanes gwreiddiol Clwb Rygbi - y dyddiau cynnar pan ffurfiwyd y Clwb ry'n ni'n ei adnabod nawr. Mae'r hanes diddorol hwn – GENI CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD - i'w weld yn llawn ar wefan y Dinesydd (ffenest Newyddion). Rwy'n ddiolchgar tu hwnt i Lyn a Leighton am fynd ati i grafu pen am yr hyn a ddigwyddodd hanner canrif yn ôl, ac am lenwi bwlch yn hanes y clwb. Os oes unrhyw un mas yna fyddai'n hoffi crynhoi hanes y saithdegau hefyd, bydden ni wrth ein bodd yn clywed gennych!

Dyma lun o'r tîm yn nhymor cyntaf y Clwb. Sawl un ydych chi'n ei nabod?

Yn ail, mae'r ddwy ddolen isod yn mynd â ni nôl at 2003, pan aeth y Clwb o fod yn dîm poblogaidd ag enw da am chwarae rygbi mentrus, i fod yn dîm oedd yn gallu bod yn llwyddiannus hefyd. Mae'r ddau fideo yn dilyn y cwrs at rownd derfynol Cwpan Bragwyr Cymru 2003, ac yn dod â'r atgofion melys hynny nôl o un o ddyddiau mwyaf cofiadwy ein hanes ni.

https://youtu.be/9QLbX4kEU_c

https://youtu.be/dAugIOf0ffg

Mae tymor 2019-20, felly, wedi dod i ben. Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r ail gyfarfod o Aelodau67, ond y bwriad yw cynnal diwrnod arall yn yr hydref, neu bryd bynnag bydd rygbi yn ailddechrau.

Hoffwn i ddiolch i bob un ohonoch sydd wedi cefnogi'r Clwb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd dros y flwyddyn ddwetha. Mae'r gefnogaeth lawr ar Bontcanna wedi bod yn braf ei gweld eleni, felly diolch i chi i gyd, a gobeithiwn eich gweld chi eto'r tymor nesa.

I gloi, ac i droi'r sylw nôl at yr hyn sy'n digwydd yn y byd ar hyn o bryd, ro'n i am i chi wybod bod y chwaraewyr wedi bod yn codi arian tuag at weithwyr yr Ysbyty Athrofaol, a hyd yma, mae dros £1,600 wedi cael ei godi. Bydd y chwaraewyr hynny sy'n gweithio dros GIG yn ein cynghori ar sut i wario'r arian. Os oes unrhyw un fyddai'n hoffi cyfrannu trwy enw'r Clwb, mae croeso i chi wneud hynny trwy drosglwyddo arian i'r cyfrif hwn - 30-98-94 00938171 - gyda'r cyfeirnod Diolch NHS.

Tan y tymor nesa, felly, hwyl fawr, a chadwch yn ddiogel.

*John Parry-Jones*
*(Ysgrifennydd y Wasg)*

